Grenfell Tower
Ymchwiliad

# YMCHWILIAD TŴR GRENFELL: CAM 2 TROSOLWG O'R ADRODDIAD

## ADRODDIAD o'r YMCHWILIAD CYHOEDDUS i'r TÂN yn NHŴR GRENFELL ar 14 MEHEFIN 2017


**Y Panel:**
Cadeirydd: Y Gwir Anrhydeddus Syr Martin Moore-Bick
Ali Akbor OBE
Thouria Istephan


**Medi 2024**

# YMCHWILIAD TŴR GRENFELL:
# CAM 2 TROSOLWG O'R ADRODDIAD

ADRODDIAD o'r YMCHWILIAD CYHOEDDUS
i'r TÂN yn NHŴR GRENFELL
ar 14 MEHEFIN 2017

**Y Panel:**
Cadeirydd: Y Gwir Anrhydeddus Syr Martin Moore-Bick
Ali Akbor OBE
Thouria Istephan

**Medi 2024**

**Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys deunydd a all beri trallod i rai.**

© Hawlfraint y goron 2024

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle datgenir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi adnabod unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylai unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn gael eu hanfon atom yn contact@grenfelltowerinquiry.org.uk.

ISBN 978-1-5286-5080-9
E03165832 09/2024

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys isafswm 40% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.

# Cynnwys

**Mae'r Trosolwg hwn yn cynnwys y penodau canlynol o adroddiad llawn Cam 2:**

Pennod 2: Crynodeb gweithredol ........................................ 7

Pennod 113: Argymhellion ........................................ 31

# Pennod 2

# Crynodeb gweithredol

2.1 Mae'r bennod hon yn cynnwys trosolwg o gynnwys ein hadroddiad. Roedd ein cylch gorchwyl yn eang ac rydym wedi dilyn llawer o linellau ymholi, weithiau â chanlyniadau annisgwyl. Mae'r adroddiad felly yn anochel yn faith ac yn fanwl. Nid yw'n bosibl i grynhoi ei holl gynnwys mewn ychydig o dudalennau, ac nid ydym wedi rhoi cynnig ar wneud hynny. Pwrpas y bennod hon yw disgrifio mewn termau eang cynnwys yr adroddiad a'r prif gasgliadau rydym wedi eu cyrraedd am y digwyddiadau a arweiniodd at y drychineb yn Nhŵr Grenfell. Rydym yn gobeithio y bydd o gymorth i ddarllenwyr o ran deall cwmpas yr adroddiad ac o ran cyfeirio eu sylw at y rhannau sydd o'r diddordeb mwyaf iddynt. Fodd bynnag, does dim cystal â darllen yr adroddiad ei hun.

2.2 Er hwylustod cyfeirio rydym wedi cyfeirio at gynnwys yr adroddiad o dan benawdau sy'n cyfateb i'r rhai yn ei Rannau amrywiol.

## Rhan 2

## Y llwybr at drychineb (Penodau 3 - 14)

2.3 Yn y Rhan hon o'r adroddiad, rydym yn disgrifio hynt y digwyddiadau a oedd yn arwain at y tân, gan ddechrau â'r drefn reoleiddio a'i datblygiad mewn perthynas â waliau allanol adeiladau uchel iawn. Rydym yn disgrifio'r rhan a chwaraewyd gan y llywodraeth ar ffurf yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ar y pryd wrth ddatblygu canllawiau statudol a'r ymchwiliad i'r tân yn Lakanal House, Southwark yn 2009. Rydym hefyd yn disgrifio'r rhannau a chwaraewyd gan gyrff dylanwadol eraill o ran creu'r amgylchiadau y digwyddodd adnewyddu Tŵr Grenfell ynddynt.

2.4 Rydym yn dod i'r casgliad bod y tân yn Nhŵr Grenfell yn benllanw degawdau o fethiant gan lywodraeth ganolog a chyrff eraill mewn safleoedd o gyfrifoldeb yn y diwydiant adeiladu, i ymchwilio'n ofalus i'r perygl o ymgorffori deunyddiau llosgadwy yn waliau allanol adeiladau preswyl uchel iawn, ac i weithredu ar yr wybodaeth a oedd ar gael iddynt.

### Y llywodraeth

2.5 Yn y blynyddoedd rhwng y tân yn Knowsley Heights yn 1991 a'r tân yn Nhŵr Grenfell yn 2017, roedd llawer o gyfleoedd i'r llywodraeth adnabod y risgiau a gyflwynwyd gan y defnydd o baneli cladin ac inswleiddio llosgadwy, yn enwedig i adeiladau uchel iawn, ac i weithredu mewn perthynas â nhw. Yn wir, erbyn 2016 roedd yr adran yn ymwybodol iawn o'r risgiau hynny, ond methodd â gweithredu ar yr hyn a wyddai. Yn benodol, methodd â chymryd sylw o rybudd y Pwyllgor Dethol Amgylchedd a Thrafnidiaeth yn Rhagfyr 1999, na ddylai fod angen tân difrifol lle byddai pobl yn cael eu lladd cyn i gamau gael eu cymryd i leihau'r risgiau a gyflwynwyd gan rai systemau cladin allanol. Methodd hefyd â gweithredu na chadw dan adolygiad argymhelliad y pwyllgor y dylai'r prawf ar raddfa fawr oedd wedi cael ei ddatblygu'n ddiweddar, gael ei ddisodli yn Nogfen Gymeradwy B am ofynion blaenorol yn ymwneud â diogelwch tân systemau cladin allanol (gan gefnu felly ar Ddosbarth 0).

2.6 Methodd yr adran hefyd â rhoi ystyriaeth ddyledus i ganlyniadau trawiadol prawf ar raddfa fawr yn 2001 yn ymwneud â phaneli alwminiwm cyfansawdd a chreiddiau polyethylen heb eu haddasu, a losgodd yn ffyrnig, nac i gymryd unrhyw gamau ychwaith naill ai

i adnabod i ba raddau roedd paneli o'r math hwnnw yn cael eu defnyddio, nac i rybuddio'r diwydiant adeiladu am y risgiau roeddent yn eu cyflwyno. Methodd hyd yn oed â chyhoeddi canlyniadau'r prawf.

**2.7** Ar lawer o achlysuron dilynol cafodd yr adran ei gwneud yn ymwybodol fod Dosbarth cenedlaethol 0 yn safon amhriodol i bennu addasrwydd paneli wal allanol yn ei herbyn ond caniataodd iddi barhau fel rhan o'r cyfarwyddyd statudol hyd ar ôl tân Tŵr Grenfell. Gallai a dylai fod wedi cael ei dileu flynyddoedd yn gynharach.

**2.8** Darparodd yr adolygiad o Ddogfen Gymeradwy B a gyflawnwyd gan yr adran rhwng 2005 a 2006 gyfle i egluro'r cyfarwyddyd ar gydymffurfio â gofyniad gweithredol B4(1), ond roedd yr iaith a ddefnyddiwyd yn amwys ac ychwanegwyd geiriau na chafodd eu hystyried yn dda yn hwyr yn y broses heb ymgynghori cywir.

**2.9** Rhwng 2012 a 2017 derbyniodd yr adran rybuddion niferus am y risgiau cysylltiedig â defnyddio inswleiddio polymerig a phaneli alwminiwm cyfansawdd a chreiddiau polyethylen heb eu haddasu. Daeth yn ymwybodol hefyd o sawl tân cladin mawr dramor yn cynnwys cynhyrchion o'r mathau hynny. Erbyn 2013 ar yr hwyraf, roedd yn gwybod bod Dogfen Gymeradwy B yn aneglur ac heb ei deall yn gywir gan gyfran arwyddocaol o'r rheini oedd yn gweithio yn y diwydiant adeiladu, ac erbyn Chwefror 2016 roedd wedi dod yn ymwybodol bod rhai yn y diwydiant yn bryderus fod inswleiddio llosgadwy a phaneli deunydd alwminiwm cyfansawdd (ACM) â chreiddiau polyethylen heb eu haddasu yn cael eu defnyddio fel mater o drefn ar adeiladau uchel iawn yn groes i ofyniad gweithredol B4. Fodd bynnag, er gwaethaf yr hyn a wyddai, a'r rhybuddion a dderbyniodd o rai cyfeiriadau, methodd yr adran â diwygio nac egluro'r cyfarwyddyd yn Nogfen Gymeradwy B ar adeiladu waliau allanol.

**2.10** Roedd yr adran ei hun yn cael ei rhedeg yn wael, yn yr ystyr y caniatawyd gormod o ryddid gweithredu i'r swyddog â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd am y Rheoliadau Adeiladu a Dogfen Gymerdawy B heb oruchwyliaeth ddigonol. Methodd â dwyn i sylw'r swyddogion uwch y risgiau difrifol yr oedd wedi dod yn ymwybodol ohonynt, ac yn eu tro fe wnaethant fethu â'i oruchwylio yn gywir ac i fodloni eu hunain fod ei ymateb i faterion oedd yn effeithio ar ddiogelwch bywydau pobl yn briodol. Roedd yn fethiant difrifol i ganiatáu i'r fath faes pwysig o weithgarwch aros yn nwylo un swyddog cymharol isel.

**2.11** Roedd y Sefydliad Ymchwil Adeiladau (yn cael ei adnabod yn wreiddiol fel Gorsaf Ymchwil Tân) wedi cael ei sefydlu yn 1921 fel corff llywodraeth i gyflawni ymchwil i a phrofi dulliau a chynhyrchion adeiladu. Ar ôl iddo gael ei breifateiddio yn 1997 cyfyngodd yr adran gwmpas y cyngor y gofynnwyd iddo ei ddarparu ar faterion diogelwch tân. O ganlyniad, amddifadodd yr adran ei hun o fudd llawn cyngor a phrofiad BRE. Ar achlysuron fe wnaeth gwtogi ymchwiliadau'n fwriadol cyn i unrhyw gasgliad cywir gael ei gyrraedd.

**2.12** Dangosodd yr adran agwedd hunanfodlon ac ar adegau amddiffynnol at faterion yn effeithio ar ddiogelwch tân. Yn dilyn y tân yn Lakanal House argymhellodd y crwner i Ddogfen Gymeradwy B gael ei hadolygu, ond ni chafodd ei hargymhellion eu trin ag unrhyw ymdeimlad o frys ac ni esboniodd swyddogion yn eglur i'r Ysgrifennydd Gwladol pa gamau oedd yn ofynnol i gydymffurfio â nhw. Yn yr un modd, cafodd pryderon dilys am risgiau tân cladin a godwyd gan y Grwp Seneddol Trawsbleidiol ar Ddiogelwch Tân eu hateb dro ar ôl tro gan agwedd amddiffynnol a diystyriol gan swyddogion a rhai gweinidogion.

**2.13** Yn y blynyddoedd a ddilynodd dân Lakanal House fe wnaeth agenda ddadreoleiddio'r llywodraeth, wedi'i chefnogi'n frwd gan rai is-weinidogion a'r Ysgrifennydd Gwladol, reoli meddwl yr adran i'r fath raddau fod hyd yn oed materion oedd yn effeithio ar ddiogelwch bywyd yn cael eu hanwybyddu, eu hoedi neu eu diystyru.

2.14 Yn ystod y cyfnod hwnnw gwrthsafodd y llywodraeth alwadau yn benderfynol o'r sector tân cyfan i reolediddio aseswyr risg tân ac i ddiwygio'r Gorchymyn Dioglewch Tân i egluro ei fod yn gymwys i waliau allanol adeiladau yn cynnwys mwy nac un set o aelwydydd domestig. Er iddi gomisiynu adolygiad o'r cyngor yng Nghanllaw Cymdeithas Llywodraeth Leol *Diogelwch Tân mewn blociau fflatiau wedi'u hadeiladu'n bwrpasol* yn ymwneud â symud pobl agored i niwed allan, methodd ag ymgynghori a'r rheini oedd yn cynrychioli eu buddiannau.

## Y Sefydliad Ymchwil Adeiladu

2.15 Daliodd BRE safle o ymddiriedaeth o fewn y diwydiant adeiladu a chafodd ei gydnabod yn genedlaethol ac yn rhyngwladol fel arweinydd mewn diogelwch tân. Fodd bynnag, o 1991 cafodd llawer o'r gwaith a gyflawnodd mewn perthynas â phrofi diogelwch tân waliau allanol ei ddifetha gan ymddygiad amhroffesiynol, ymarferion annigonol, diffyg goruchwyliaeth effeithiol, adrodd gwael a diffyg trylwyredd gwyddonol.

2.16 Er i BRE gydnabod o mor gynnar â 1991, yn dilyn y tân yn Knowsley Heights, nad oedd profi ar raddfa fach o'r fath a ddarparodd y sail ar gyfer Dosbarth 0 cenedlaethol wedi galluogi asesiad cywir i gael ei wneud o'r ffordd y byddai system wal allanol yn ymateb i dân, ni thynnodd hynny at sylw'r llywodraeth, yn ffurfiol nac yn anffurfiol. Yn yr un modd, yn dilyn ei brawf ar raddfa fawr o system yn ymgorffori paneli alwminiwm cyfansawdd a chreiddiau polyethylen heb eu haddasu yn 2001, methodd BRE a thynnu sylw'r adran mewn termau eglur at y ffordd roedd y deunydd wedi ymddwyn ynddi a'r peryglon a gyflwynodd.

2.17 Roedd adroddiadau BRE i'r tanau mawr yn Knowsley Heights (1991), Garnock Court (1999) a The Edge (2005) yn bell o gynhwysfawr ac ymhob achos methodd ag adnabod nac asesu ffactorau cyfrannol pwysig. Cafodd yr adroddiadau a ddarparodd i'r adran eu nodweddu gan arwynebolrwydd a diffyg dadansoddiad, â'r canlyniad eu bod wedi rhoi'r argraff ffug i'r adran bod y rheoliadau a'r canllawiau'n gweithio'n effeithiol.

2.18 Roedd gwendidau yn y ffordd y cyflawnodd BRE brofion yn unol â BS 8414 ac yn ei fodd cadw cofnodion, a'i gwnaeth yn agored i'r risg y gallent gael eu camddefnyddio gan weithgynhyrchwyr cynhyrchion diegwyddor, fel y digwyddodd yn achos yr ail brawf a gyflawnwyd ar gyfer Celotex, gweithgynhyrchydd yr inswleiddio a ddewiswyd i'w ddefnyddio ar Dŵr Grenfell. Rhoddodd staff uwch BRE gyngor i gwsmeriaid megis Kingspan a Celotex ar y ffordd orau i fodloni'r meini prawf ar gyfer system i gael ei hystyried yn ddiogel, a thrwy hynny'n cyfaddadwdu ei chyfanrwydd a'i hannibyniaeth. Mewn rhai achosion gwelsom dystiolaeth o awydd i gynnwys cwsmeriaid presennol ac i gadw ei statws o fewn y diwydiant ar draul cynnal cadernid ei brosesau ac ystyriaethau ynghylch diogelwch y cyhoedd. Roedd ymddygiad amhroffesiynol rhai o staff BRE yn ganlyniad yn rhannol o fethiant i ddarparu hyfforddiant digonol iddynt yn eu cyfrifoldebau.

# Rhan 3

## Profi a marchnata cynhyrchion (Penodau 15 - 29)

2.19 Un rheswm arwyddocaol iawn pam y daeth Tŵr Grenfell i gael cladin o ddeunyddiau llosgadwy oedd anonestrwydd systematig ar ran y rheini a wnaeth ac a werthodd y paneli cladin sgrîn glaw a chynhyrchion inswleiddio. Fe wnaethant gymryd rhan mewn strategatethau bwriadol a chynaledig i gamddefnyddio'r prosesau profi, camgynrychioli data profion a chamarwain y farchnad. Yn achos y prif gynnyrch inswleiddio a ddefnyddiwyd ar Dŵr Grenfell, Celotex RS5000, roedd y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE) yn rhan o'r strategaeth honno.

2.20 Llwyddodd y strategaethau hynny'n rhannol oherwydd bod y cyrff ardystio a ddarparodd sicrwydd i'r farchnad o ansawdd a nodweddion y cynhyrchion, y Bwrdd Cymeradwyo Prydeinig (BBA) a Rheolaeth Adeiladau Awdurdodau Lleol (LABC) wedi methu â sicrhau bod y datganiadau yn eu tystysgrifau cynnyrch yn gywir ac yn seiliedig ar dystiolaeth profion. Methodd UKAS, y corff y rhoddwyd cyfrifoldeb iddo am arolygu cyrff ardystio, â chymhwyso safonau cywir o fonitro a goruchwylio.

### Arconic Architectural Products

2.21 Fe wnaeth Arconic Architectural Products weithgynhyrchu a gwerthu'r paneli sgrîn glaw Reynobond 55 PE a ddefnyddiwyd yn wal allanol Tŵr Grenfell. Roeddent yn gynnyrch ACM wedi'u gwneud o ddwy ddalen denau o alwminiwm a chraidd polyethylen i ddarparu caledwch. Cafodd y deunydd ei weithgynhyrchu a'i werthu mewn dalennau fflat wedi'u dylunio i gael eu torri i faint a'u hatodi i is-ffrâm metal, naill ai fel paneli fflat gan rybedion neu fel strwythurau tri dimensiwn, a adnabyddir fel casetiau, gan slotiau, gan wneud defnydd o rym disgyrchiant. Mae polyethylen yn llosgi'n ffyrnig a phan gafodd ei ddefnyddio ar ffurf casét Reynobond 55 PE roedd yn eithriadol o beryglus.[1] O 2005 hyd ar ôl tân Tŵr Grenfell fe wnaeth Arconic guddio'n fwriadol o'r farchnad raddau gwirioneddol y perygl o ddefnyddio Reynobond 55 PE ar ffurf casét, yn enwedig ar adeiladau uchel iawn.[2]

2.22 Roedd y cynnyrch ar ei ffurff rhybedog wedi'i ddosbarthu o dan y system ddosbarthu Ewropeaidd B-s2. d0, ond o ddechrau 2005 roedd data profion wedi bod ym meddiant Arconic yn dangos bod y cynnyrch ar ei ffurf casét yn adweithio i dân mewn ffordd beryglus iawn ac ni allai gael ei ddosbarthu yn unol â safonau Ewropeaidd. Serch hynny, parhaodd Arconic i ddweud wrth y farchnad bod y paneli wedi'u dosbarthu'n B-s2, d0 heb dynnu unrhyw wahaniaeth rhwng y ffurfiau casét a rhybedog.

2.23 Erbyn diwedd 2007 roedd Arconic wedi dod yn ymwybodol fod pryder difrifol yn y diwydiant adeiladu am ddiogelwch paneli ACM ac roedd ef ei hunan wedi adnabod y perygl roeddent yn eu cyflwyno. Erbyn diwedd 2011 roedd yn ymwybodol iawn bod Reynobond 55 PE ar ffurf casét yn perfformio'n waeth o lawer mewn tân ac roedd yn sylweddol fwy peyrglus nac ar ffurf rhybedog. Serch hynny, penderfynwyd ecsbloetio'r hyn a welodd fel cyfundrefnau rheoleiddiol gwan mewn gwledydd penodol (gan gynnwys y DU) i werthu Reynobond 55 PE ar ffurf casét, gan gynnwys ar gyfer defnydd ar adeiladau preswyl.

2.24 Er gwaethaf yr wybodaeth a enillwyd o danau cladin yn Dubai yn 2012 a 2013, ni wnaeth Arconic ystyried tynnu Reynobond 55 PE allan o blaid y fersiwn oedd yn gwrthsefyll tân a oedd ar gael ar y pryd. Yn hytrach, caniataodd i gwsmeriaid yn y DU barhau i brynu'r cynnyrch heb ei addasu, gan eu rhoi ar ddeall y byddai'n dweud wrthynt os oedd yn anaddas at y defnydd yr oeddent yn bwriadu ei roi, er heb unrhyw fwriad o wneud hynny.

1 Gweler yn benodol Rhan 11 pennod 109.
2 Gweler Rhan 3 Penodau 16 i 21.

**2.25** Yn dilyn profi ychwanegol yn 2013, penderfynodd Arconic y byddai Reynobond 55 PE yn cael ei ddosbarthu fel Dosbarth E yn unig, boed ar ffurf rhybedog neu gasét. Fodd bynnag, ni throsglwyddodd yr wybodaeth honno i'w gwsmeriaid yn y DU nac i'r BBA. Nid oedd hynny'n ddiofalwch. Roedd yn adlewyrchu strategaeth fwriadol i barhau i werthu Reynobond 55 PE yn y DU yn seiliedig ar ddatganiad am ei berfformiad tân y gwyddai oedd yn ffug.

**2.26** Yn Rhagfyr 2014 dosbarthodd y tŷ profi Ffrengig Centre Scientifique et Technique du Bâtiment (CSTB) y paneli ar ffurf rhybedog fel Dosbarth C a'r paneli ar ffurf casét fel Dosbarth E. Fodd bynnag, methodd Arconic â rhoi gwybod i'r BBA am y dosbarthiadau diwygiedig hynny.

**2.27** Er y gofynnodd Reynobond 55 PE am ryw raddfa o wneuthuriad ac na allai gael ei ddefnyddio yn y ffurf y gadawodd y ffatri ynddo, perswadiodd Arconic y BBA i roi tystysgrif nad oedd yn gwahaniaethu rhwng y ffurfiau gwahanol o osod. Fe wnaeth guddio gwybodaeth bwysig oddi wrth y BBA, yn enwedig y data profion yn ymwneud â'r cynnyrch ar ffurf casét, a arddangosodd ei fod yn perfformio'n waeth o lawer nac ar ffurf rhybedog. Achosodd i'r BBA wneud datganiadau yn y dystysgrif y gwyddai Arconic eu bod yn ffug a chamarweiniol.

## Celotex

**2.28** Roedd Celotex yn gweithgynhyrchu RS5000, inswleiddiad ewyn polyisosyanwrad llosgadwy. Mewn ymdrech i dorri i mewn i'r farchnad ar gyfer inswleiddio addas i'w ddefnyddio ar adeiladau uchel iawn, wedi'i greu ac wedyn ei reoli gan Kingspan K15, cychwynnodd Celotex ar gynllun anonest i gamarwain ei gwsmeriaid a'r farchnad ehangach.[3]

**2.29** Â chydweithrediad BRE, ym Mai 2024 profodd Celotex yn unol â'r BS 8414 system yn ymgorffori RE5000 oedd yn cynnwys dwy set o fyrddau magnesiwm ocsid yn gwrthsefyll tân wedi'u lleoli mewn safleoedd hollbwysig i sicrhau y llwyddodd. Wedyn cafodd adroddiad prawf gan BRE a hepgorodd unrhyw gyfeiriad at y byrddau magnesiwm ocsid, gan felly ei wneud yn faterol anghyflawn a chamareweiniol.

**2.30** Fe wnaeth Celotex farchnata RS5000 wedyn fel "y bwrdd PIR cyntaf i brofi hyd at BS 8414 yn llwyddiannus", ac fel "derbyniol ar gyfer defnydd mewn adeiladau uwch nac 18 metr o ran uchder". Fodd bynnag, mae'r prawf y dibynnodd Celotex arno i gefnogi'r honiad hwnnw wedi cael ei gam-drin fel rydym wedi disgrifio uchod, ffaith na ddatgelodd Celotex yn ei lenyddiaeth farchnata. Ymhellach, mae BS 8414 yn brawf system ac nid yw'n cynnwys profi na dosbarthu cynhyrchion unigol. Cuddiodd Celotex yr wybodaeth honno yn fwriadol ym mhrint mân ei lenyddiaeth farchnata.

**2.31** Roedd RS5000 wedi cael ei farchnata'n flaenorol fel FR5000. O 2011 roedd wedi cael ei werthu fel bod ganddo berfformiad tân Dosbarth 0 "drwyddi draw", honiad oedd yn ffug a chamarweiniol. Fe wnaeth Celotex gyflwyno RE5000 i Harley fel rhywbeth addas a diogel i'w ddefnyddio ar Dŵr Grenfell, er y gwyddai nad oedd hynny'n wir.

## Kingspan

**2.32** O 2005 tan ar ôl i'r Ymchwiliad hwn gychwyn, crëodd Kingspan farchnad ffug mewn inswleiddio yn fwriadol i'w ddefnyddio ar adeiladau dros 18 metr o ran uchder trwy honni bod K15 wedi bod yn rhan o system a brofwyd yn llwyddiannus o dan BD 8414, a gallai felly gael ei ddefnyddio yn wal allanol unrhyw adeilad dros 18 metr o ran uchder heb ystyried ei gynllun neu gydrannau eraill. Roedd hynny'n honiad ffug, fel y gwyddai'n iawn, oherwydd bod BS 8414 yn ddull ar gyfer profi systemau wal cyfan ac mae ei ganlyniadau yn gymwys i'r system neilltuol

[3] Gweler Rhan 3 Penodau 24 a 25.

a brofir yn unig. Fel y gwyddai Kinspan, ni allai K15 gael ei werthu'n onest fel rhywbeth addas i'w ddefnyddio yn waliau allanol adeiladau dros 18 metr o ran uchder yn gyffredinol, ond dyna beth y llwyddodd i'w wneud am sawl blwyddyn.[4]

2.33 Wrth farchnata K15 dibynnodd Kingspan ar ganlyniadau prawf BS 84114-1 unigol a berfformiwyd yn 2005 ar system nad oedd ei chydrannau yn gynrychioladol o wal allanol arferol a pharhaodd i ddibynnu ar y prawf hwnnw heb ddatgelu ei fod wedi newid cyfansoddiad y cynnyrch yn 2006. Roedd profion a wnaed yn 2007 a 2008 ar systemau yn ymgorffori y ffurf gyfredol ar y pryd o K15 yn drychinebus, ond ni thynnodd Kingspan y cynnyrch o'r farchnad, er gwaethaf ei bryderon ei hun am ei berfformiad tân.

2.34 Cuddiodd Kingspan o'r BBA y ffaith fod y cynnyrch roedd yn ei werthu, yr oedd y dystysgrif a roddwyd yn 2008 yn cyfeirio ato, yn wahanol i'r cynnyrch oedd wedi cael ei ymgorffori i'r system a brofwyd yn 2005. Ymhellach, roedd y dystysgrif BBA yn cynnwys tri datganiad pwysig am berfformiad tân K15 nad oedd yn wir. Defnyddiodd ffurf ar eiriau a awgrymwyd gan Kingspan ac wedi'i thynnu o'i lenyddiaeth farchnata ei hun.

2.35 Yn 2009 llwyddodd Kingspan i gael tystysgrif gan yr LABC oedd yn cynnwys datganiadau ffug am K15 a chefnogodd ei ddefnydd yn gyffredinol ar adeiladau dros 18 metr o ran uchder. Dibynnodd Kingspan ar y dystysgrif honno am sawl blwyddyn i werthu'r cynnyrch. Gwnaeth benderfyniad bwriadol i ddefnyddio'r dystysgrif LABC i guddio, neu dynnu sylw oddi wrth, absenoldeb tystiolaeth brofi ategol.

2.36 Pan gafodd y dystysgrif BBA ei hailddosbarthu yn 2013, perswadiodd Kingspan y BBA i gynnwys datganiad fod K15 yn cydymffurfio â pharagraff 12.7 o Ddogfen Gymeradwy B, a awgrymodd yn anghywir ei fod yn gynnyrch o losgadwyedd cyfyngedig.

2.37 Pan ddychwelodd i gynnal profion ar systemau yn ymgorffori K15, ni ddefnyddiodd Kingspan y cynnyrch ar y farchnad yn gyfredol ond defnyddiodd fersiynau wedi'u haddasu neu fersiynau treialu. Dibynnodd yn anonest ar ganlyniadau'r profion hynny i gefnogi'r gwerthiant o K15 ar gyfer defnydd ar adeiladau dros 18 metr o ran uchder a pharhaodd i wneud hynny hyd Hydref 2020.

2.38 Roedd honiad Kingspan fod K15 yn ateb y gofynion ar gyfer Dosbarth 0 yn seiliedig ar brawf o'r wynebydd ffoil yn unig ac roedd yn anonest.

2.39 Camfanteisiodd Kingspan yn sinigaidd ar ddiffyg gwybodaeth fanwl y diwydiant am BS 8414 a BR 135 a dibynnodd ar y ffaith fod marchnad di-feddwl-ddrwg yn debygol iawn o ddibynnu ar ei honiadau ei hun am y cynnyrch, nid y lleiaf oherwydd y cyfarwyddodd y dystysgrif BBA y prynwr i ymgynghori â Kingspan mewn perthynas â'i ddefnydd ar adeiladau dros 18 metr o ran uchder.

## Siderise

2.40 Gweithgynhyrchodd Siderise y rhwystrau ceudod Lamatherm a ddefnyddiwyd yn y gwaith adnewyddu. Er nad oes tystiolaeth o unrhyw anonestrwydd ar ei ran, cyflwynodd rhai agweddau ar ei ddeunyddiau marchnata achos i bryderu. Cyflenwodd hefyd rwystrau ceudod i'w defnyddio mewn gwagleoedd mwy na'r rheini roeddent wedi cael eu profi ar eu cyfer.

## Y Bwrdd Cymeradwyo Prydeinig

2.41 Mae'r Bwrdd Cymeradwyo Prydeinig (BBA) yn sefydliad masnachol sy'n ardystio cydymffurfiaeth cynhyrchion â gofynion deddfwriaeth. Dosbarthodd dystysgrifau o gydymffurffiaeth mewn perthynas ag un o'r cynhyrchion inswleiddio a ddefnyddiwyd

[4] Gweler Rhan 3 penodau 22 a 23.

ar Dŵr Grenfell, Kingspan 15, a'r paneli Reynobond 55 PE a ddefnyddiwyd fel y sgrîn glaw. Cafodd ei dystysgrifau eu derbyn yn y diwydiant i raddau helaeth heb gwestiwn ond nid oedd ei weithdrefnau naill ai'n gwbl annibynnol na thrwyadl ac nid oeddent yn cael eu cymhwyso'n drwyadl bob amser.

**2.42** Llwyddodd strategaethau anonest Arconic a Kingspan i raddau helaeth oherwydd anallu'r BBA, ei fethiant i lynu'n gadarn at y system o wiriadau yr oedd wedi ei rhoi yn ei lle, a pharodrwydd cynhenid i fodloni cwsmeriaid yn hytrach na mynnu ar safonau uchel a glynu at gontract oedd wedi'i fwriadu i'w cynnal. O ganlyniad i ddiffygion systemig a lefelau annigonol o allu ac arbenigedd technegol ymhlith ei staff, roedd ei graffu ar berfformiad tân K15 a Reynobond 55 PE yn ddifrifol o ddiffygiol ac roedd y tysysgrifau a gynhyrchodd ar gyfer y cynhyrchion hyn yn gamarweiniol.

**2.43** Y broblem sylfaenol oedd fod y BBA wedi methu â rheoli'r gwrthdaro rhwng yr angen i weithredu fel sefydliad masnachol er mwyn denu a chadw cwsmeriaid a'r angen i ymarfer graddfa uchel o gadernid ac annibyniaeth yn ei ymchwiliadau er mwyn bodloni'r rheini a allai ystyried dibynnu ar ei dystysgrifau. Derbyniodd, i'w cynnwys mewn tystysgrifau ffurfiau ar eirio a gynigiwyd gan weithgynhyrchwyr oedd yn anghywir a chamarweiniol. Fe wnaeth ei ddiffyg prosesau cadarn a chyndynrwydd i orfodi telerau ei gontractau ei alluogi i ddod yn ddioddefwr ymddygiad anonest ar ran gweithgynhyrchwyr diegwyddor.

**2.44** Cyn belled ag yr oedd Reynobond 55 PE o dan sylw, roedd y dystysgrif a gyhoeddwyd gan y BBA yn 2008 yn cynnwys datganiadau ffug, gan gynnwys y gall y cynnyrch “gael ei ystyried ag arwyneb Dosbarth 0”. Derbyniodd y BBA ganlyniadau'r profion a gynhaliwyd ar gynnyrch gwahanol. Methodd â chymryd cyngor oddi wrth BRE wrth ddrafftio'r dystysgrif. Fe wnaeth gwblhau a chymeradwyo adolygiadau cyfnodol ac ailroddodd y dystysgrif heb fod wedi derbyn unrhyw wybodaeth newydd, er gwaethaf gofyn i Arconic dro ar ôl tro i'w darparu. Methodd ag atal na thynnu'r dystysgrif yn ôl mewn ymateb i fethiant Arconic i gydweithredu.

**2.45** Hyd Rhagfyr 2013 fe wnaeth y BBA i bob pwrpas ganiatáu i gynnwys y tystysgrifau yn ymwneud â Kingspan K15 gael ei orchymyn gan Kingspan ei hun, gan gynnwys y gofyniad i geisio cyngor gan Kingspan mewn perthynas â defnydd y cynnyrch ar adeiladau dros 18 metr o ran uchder. Ni wnaeth y BBA asesu unrhyw agwedd ar weithgynhyrchu, profi na pherfformiad tân y cynnyrch cyn iddo gyhoeddi'r dystysgrif. Ni chafodd unrhyw ddata profion yn ymwneud â K15 cyn iddo gyhoeddi tystysgrif yn cynnwys datganiad fod y cynnyrch wedi cael ei ddosbarthu fel Dosbarth cenedlaethol 0, gan nad oedd dim yn bodoli. Dylai fod wedi gwybod bod y datganiad yn y dystysgrif ddiwygiedig a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2013 yn awgrymu bod K15 yn ddeunydd o losgadwyedd cyfyngedig yn ffug oherwydd bod K15 yn gynnyrch ewyn ffenolig.

## Rheolaeth Adeiladu Awdurdodau Lleol

**2.46** Mae Rheolaeth Adeiladu Awdurdodau Lleol (LABC) yn gorff a ffurfiwyd gan adrannau rheolaeth adeiladu awdurdodau lleol yn 2005 i ddarparu cymorth â hyfforddiant a materion technegol ac i ddarparu gwasanaethau marchnata a datblygu busnes canoledig i aelodau. Yn dilyn asesiad cychwynnol gan syrfëwr rheolaeth adeiladu awdurdod lleol ac adolygiad ail gam gan grŵp o arbenigwyr, cyhoeddodd dystysgrifau yn dilysu cydymffurfiaeth cynhyrchion adeiladu a systemau â'r Rheoliadau Adeiladu a Dogfennau Cymeradwy.

**2.47** Mae'n rhaid i LABC gymryd ei gyfran o'r bai am y derbyn gan y farchnad o Celotex RS5000 a Kingspan K15 ar gyfer defnydd ar adeiladau dros 18 metr o ran uchder. Roedd methiant llwyr ar ran yr LABC dros nifer o flynyddoedd i gymryd camau sylfaenol i sicrhau bod y tystygrifau a gyhoeddodd yn eu cylch yn dechnegol gywir.

**2.48** Roedd yr LABC yn agored i gael eu camarwain oherwydd nad oedd ei phrosesau'n cael eu gweithredu'n ddigon trwyadl. Ni ddylai'r dasg o gynhyrchu asesiad cychwynnol fod wedi cael ei rhoi i swyddogion rheolaeth adeiladu, nad oedd ganddynt y raddfa o wybodaeth na'r profiad angenrheidiol i wneud asesiad gwybodus o'r cynnyrch dan sylw, ac nid oedd y rheini a gyflawnodd yr adolygiad ail gam bob amser yn gymwys i wneud hynny ac mewn rhai achosion ni wnaethant gymryd y raddfa angenrheidiol o ofal.

**2.49** Dros gyfnod o rai blynyddoedd roedd tystysgrifau'r LABC yn ymwneud â Kingspan K15 a Celotex RE5000 yn cynnwys datganiadau camarweiniol am eu perfformiad tân ac am addasrwydd y ddau gynnyrch ar gyfer defnydd yn waliau allanol adeiladau dros 18 metr o ran uchder. Er gwaethaf rhybuddion o gyfeiriadau amrywio, methodd yr LABC â chraffu'n gywir ar yr honiadau a wnaed ar gyfer y cynhyrchion gan y gweithgynhyrchwyr ac yn hytrach mabwysiadodd yr iaith a awgrymwyd ganddynt yn anfeirniadol. Yn gryno, roedd yn fodlon i fodloni'r cwsmer ar draul y rheini a ddibynnodd ar y tystysgrifau. O ganlyniad, roedd yr LABC hefyd yn ddioddefwr o ymddygiad anonest ar ran gweithgynhyrchwyr diegwyddor.

## Y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai

**2.50** Cyflogodd y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai (NHBC) nifer fawr o Arolygwyr Cymeradwy y darparodd wasanaethau rheolaeth adeiladu i ran fawr o'r diwydiant adeiladu tai trwyddynt. Dylanwadodd yn sylweddol hefyd ar y diwydiant trwy ei aelodaeth o'r Gynghrair Rheolaeth Adeiladu, corff a sefydlwyd yn 2008 i hyrwyddo rôl cyrff rheolaeth adeiladu, a'i fodd cyhoeddi nodiadau cyfarwyddyd. Fodd bynnag, methodd â sicrhau bod ei swyddogaeth rheolaeth adeiladu wedi aros yn hanfodol reoleiddiol ac yn rhydd rhag pwysau masnachol. Roedd yn anfodlon i gynhyrfu ei gwsmeriaid ei hun a'r diwydiant adeiladu ehangach trwy ddatgelu'r raddfa o'r defnydd o inswleiddio llosgadwy yn waliau allanol adeiladau uchel iawn, yn groes i'r cyfarwyddyd statudol. Rydym wedi dod i'r casgliad bod y gwrthdaro rhwng swyddogaeth reoleiddiol rheolaeth adeiladu a phwysau buddiannau masnachol yn atal system o'r fath honno rhag gwasanaethu budd y cyhoedd yn effeithiol.

## Y Sefydliad Ymchwil Adeiladu

**2.51** Chwaraeodd BRE ran bwysig o ran galluogi Celotex a Kingspan i farchnata eu cynhyrchion i'w defnyddio yn waliau allanol adeiladau dros 18 metr o ran uchder. Nid oedd systemau BRE yn ddigon cadarn i sicrhau annibyniaeth gyflawn a'r raddfa angenrheidiol o drylwyredd technegol ar bob adeg. O ganlyniad, aberthodd gymhwyso egwyddor yn drwyadl i'w fuddiannau masnachol. O 2014 roedd wedi cymryd rhan mewn trafodaethau â Kingspan am y camau y gallai eu cymryd i sicrhau bod system yn ymgorffori K15 yn ateb y gofynion perfformiad, ac wrth brofi system yn ymgorffori K15 ym Mawrth 2014 rhoddodd gyngor ar ei berfformiad, gan gynnwys sut y gallai canlyniadau'r prawf gael eu dehongli. Derbyniodd gynnwys byrddau magnesiwm ocsid yn y system gan ymgorffori RS5000 a brofwyd ar gyfer Celotex ym Mai 2014.

## Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig

**2.52** Ni ddilynodd UKAS ei bolisïau ei hun bob tro ac roedd ei brosesau asesu yn ddiffygiol o ran cadernid a thrylwyredd. Hyd yn oed pan gafodd methiannau eu nodi ni chawsant eu harchwilio'n gywir ac ni chymerwyd cyfleoedd i wella bob tro. Dibynnodd y broses ormod ar onestrwydd a chydweithrediad y sefydliadau oedd yn cael eu hasesu ac roedd gormod yn cael ei adael i ymddiriedaeth. Dylai UKAS fod wedi cymryd agwedd fwy ymchwilgar, hyd yn oed amheuol, at y sefydliadau a achredodd. Roedd ei bwerau i weithredu yn syfrdanol o gyfyngedig, heb ddim pwerau gorfodi. Y mwyaf y gallai ei wneud mewn ymateb i ymddygiad anfoddhaol oedd i atal neu dynnu achrediad yn ôl.

## Rhan 4

## Y Sefydliad Rheolaeth Tenantiaid (Penodau 30 - 33)

**2.53** Mae'r berthynas rhwng y TMO a'i phreswylwyr wedi bod yn un drafferthus am lawer o flynyddoedd cyn adnewyddu Tŵr Grenfell. Roedd dau adroddiad annibynnol yn 2009 wedi tynnu sylw at ddiffygion difrifol niferus yn y berthynas honno. Fe wnaeth yr ail o'r adroddiadau hynny nodi llywodraethiant, agweddau staff a gwasanaeth atgyweiriadau gwael fel themâu parhaus o'r ymchwiliad. Canfu hefyd fod diffyg ymddiriedaeth preswylwyr yn y TMO yn gorwedd wrth galon y problemau. Gwnaeth yr adroddiadau tua 34 argymhelliad ar gyfer newid.

**2.54** Er gwaethaf yr adroddiadau treiddgar hynny a'r argymhellion roeddent yn eu cynnwys, wyth mlynedd yn ddiweddarach roedd y TMO wedi dangos ond ychydig o arwyddion o unrhyw newid ac ymddangosodd i fod wedi dysgu dim byd am sut i drin, neu ymwneud â'i breswylwyr.

**2.55** Rydym wedi dod i'r casgliad o'r holl dystiolaeth o 2011 i 2017 bod perthnasoedd rhwng y TMO a llawer o breswylwyr Tŵr Grenfell yn cael eu nodweddu'n gynyddol gan ddiffyg ymddiriedaeth, anhoffter, gelyniaeth bersonol a dicter. Ystyriodd rhai, efallai llawer, o breswylwyr y tŵr y TMO fel unben nad oedd yn malio ac a oedd yn bwlio oedd yn eu bychanu a'u gwthio i'r cyrion, yn eu hystyried yn niwsans, neu waeth, ac wedi methu â chymryd eu pryderon o ddifrif. O'i safbwynt ef, ystyriodd y TMO rai o'r preswylwyr fel crëwyr trafferth milwriaethus wedi'u harwain gan lond llaw o actifyddion llafar, yn bennaf Edward Daffarn, yr oedd ei arddull yn peri tramgwydd iddynt. Y canlyniad oedd awyrgylch gwenwynig wedi'i danio gan ddiffyg ymddiriedaeth ar y ddwy ochr.

**2.56** Yn y diwedd, syrthiodd cyfrifoldeb am gynnal y berthynas rhwng y TMO a chymuned Grenfell nid ar aelodau'r gymuned honno, oedd a hawl i gael eu trin â pharch, ond ar y TMO fel corff cyhoeddus yn ymarfer rheolaeth dros yr adeilad a oedd yn cynnwys eu cartrefi. Collodd y TMO olwg o'r ffaith fod y preswylwyr yn bobl oedd yn dibynnu arno am gartref diogel a pharchus a'r preifatrwydd a'r urddas y dylai cartref eu darparu. Crëodd y ddibyniaeth honno berthynas anghyfartal ac angen cyfatebol i'r TMO sicrhau, beth bynnag y bo'r anawsterau, bod y preswylwyr yn cael eu trin â dealltwriaeth a pharch. Rydym wedi dod i'r casgliad y methodd y TMO â chydnabod yr angen hwnnw ac felly methodd â chymryd y camau angenrheidiol i sicrhau ei fod yn cael ei bodloni.

**2.57** Pa mor annifyr ac anghyfleus bynnag y gallai ar adegau fod wedi canfod cwynion a gofynion rhai o breswylwyr Tŵr Grenfell, mae'r ffaith bod y TMO wedi caniatáu i'r berthynas waethygu i'r fath raddau yn adlewyrchu methiant difrifol ar ei ran i ddilyn ei gyfrifoldebau sylfaenol.

## Rhan 5

## Rheolaeth diogelwch tân yn Nhŵr Grenfell (Penodau 34 - 36)

**2.58** Roedd RBKC a'r TMO yn gydgyfrifol am reoli diogelwch tân yn Nhŵr Grenfell. Cafodd y blynyddoedd rhwng 2007 a 2017 eu nodweddu gan ddifaterwch cyson at ddiogelwch tân, yn enwedig diogelwch pobl agored i niwed. Rydym wedi archwilio'n fanwl amrywiaeth eang o faterion sydd wedi ein harwain at y casgliad hwnnw, rydym yn amlinellu'r mwyaf amlwg ohonynt yma.

**2.59** Roedd RBKC yn gyfrifol am arolygu gweithgareddau y TMO, nid monitro ei weithrediadau o ddydd i ddydd, ond roedd ei oruchwyliaeth o berfformiad TMO yn wan ac nid oedd diogelwch tân yn ddarostyngedig i unrhyw brif ddangosydd perfformiad. Roedd yr absenoldeb o unrhyw graffu annibynnol neu drwyadl gan RKBC o berfformiad y TMO o'i rwymedigaethau iechyd a diogelwch, ac yn enwedig ei reolaeth o ddiogelwch tân, yn wendid neilltuol Cymerodd RKBC ond ychydig neu ddim ystyriaeth o adolygiad annibynnol a beirniadol iawn o ddiogelwch tân a gyflawnwyd ar gyfer y TMO yn 2009. Nid oedd hyd yn oed yn gwybod am adroddiad annibynnol a beirniadol iawn arall a gynhyrchwyd yn 2013 oherwydd bod y Y TMO wedi methu â'i ddatgelu i RKBC.[5]

**2.60** Dibynnodd perfformiad TMO o'i swyddogaethau ei hun ac effeithiolrwydd arolygiaeth RBKC ar adrodd llawn a gonest gan uwch reolwyr y TMO i'w bwrdd. Er bod system foddhaol i uwch reolwyr adrodd i'r bwrdd ac i RBKC, nid oedd yn gweithredu'n effeithiol oherwydd cyndynrwydd dwfn ar ran prif weithredwr TMO, Robert Black, i roi gwybod i'r bwrdd a phwyllgorau craffu RBKC am faterion oedd yn effeithio ar ddiogelwch tân. Roedd y methiant hwnnw gymaint yn fwy difrifol oherwydd bod methiannau cronig a systemig yn rheolaeth TMO o ddiogelwch tân y dylai'r bwrdd fod wedi cael eu gwneud yn ymwybodol ohonynt. Methodd Robert BlacK yn gyson â dweud wrth naill ai'r bwrdd neu RBKC am bryderon LFB am gydymffurfiaeth y TMO â'r Gorchymyn Diogelwch Tân neu'r camau a gymerwyd i'w orfodi.

**2.61** Yn gyntaf, er yn 2009 i ymgynghorydd diogelwch tân annibynnol argymell y dylai strategaeth diogelwch tân gael ei pharatoi, ni chafodd dim byd ei wneud hyd Tachwedd 2013 ac nid oedd strategaeth wedi cael ei chymeradwyo'n derfynol erbyn adeg tân Tŵr Grenfell.

**2.62** Yn ail, caniatawyd i unig asesydd tân y TMO ar gyfer ei ystad gyfan, Carl Stokes, lithro i mewn i'r rôl honno heb unrhyw broses ddethol neu gaffael ffurfiol Roedd wedi camgynrychioli ei brofiad a'i gymwysterau (rhai ohonynt yr oedd wedi eu dyfeisio) ac roedd yn anghymwys i gyflawni asesdiadau risg tân ar adeiladau o faint a chymhlethdod Tŵr Grenfell, heb sôn am ddal y portffolio TMO cyfan. O ganlyniad roedd perygl na fyddai asesiadau risg tân yn ateb y safon ofynnol.

**2.63** Yn drydydd, er i ddulliau Mr Stokes ar gyfer cyflawni asesiadau risg tân yn adlewyrchu'n gyffredinol bum cam y Gyfarwyddiaeth Weithredol iechyd a Diogelwch ar gyfer rheoli risgiau, y Canllawiau LGA a PAS 79, roeddent yn dioddef o ddiffygion difrifol Methodd yn aml â gwirio a oedd y TMO wedi cymryd camau mewn ymateb i risgiau roedd e wedi eu nodi mewn asesiadau blaenorol. Er gwaethaf y pryderon a fynegwyd gan yr LFB am ei gymhwysedd, parhaodd y TMO i ddibynnu'n anfeirniadol arno, sefyllfa a wnaeth y perygl yn fwy difrifol yn absenoldeb unrhyw drefniadau ar gyfer asesu ansawdd ei waith.

[5] Gweler Rhan 5 pennod 37.

**2.64** Yn bedwerydd, nid oedd system ddigonol ar gyfer sicrhau bod diffygion a gafodd eu nodi mewn asesiadau risg tân yn cael eu cywiro'n effeithiol ac mewn da bryd. Datblygodd y TMO ôl-groniad enfawr o waith adferol na lwyddodd i'w glirio erioed, sefyllfa a gafodd ei gwaethygu gan fethiant ei uwch reolwyr i drin diffygion â'r difrifoldeb roeddent yn eu haeddu. Yn wir, ar un achlysur ymyrrodd uwch reolwyr i leihau'r pwysigrwydd ynghlwm â gweithredu mesurau adferol. Cafodd gofynion rheoli diogelwch tân eu gweld gan y TMO fel anghyfleustra yn hytrach nac agwedd hanfodol ar ei ddyletswydd i reoli ei eiddo yn ofalus.

**2.65** Nid oedd nodweddion pwysig penodol o'r mesurau atal tân yn Nhŵr Grenfell o safon briodol. Er enghraifft, nid oedd y drysau blaen newydd a osodwyd gan y TMO yn 2011 a 2012 yn bodloni'r safonau gwrthsefyll tân a awgrymwyd gan Ddogfen Gymeradwy B oherwydd bod y TMO wedi methu â manylu ar y safon diogelwch tân cywir wrth eu harchebu.

**2.66** Ni wnaeth trefniadau archwilio a chynnal a chadw a oedd yn effeithio ar systemau atal tân adlewyrchu ymarfer gorau a chawsant eu dilyn yn anghyson. Methodd llawer o ddyfeisiau hunan-gau ar ddrysau blaen Tŵr Grenfell â gweithio'n effeithiol ac roedd rhai ar goll yn llwyr Ni sefydlodd y TMO raglen archwilio a chynnal a chadw effeithiol ar gyfer dyfeisiau hunan-gau ar ddrysau mynediad er gwaethaf Hysbysiad Gorfodi a gyhoeddwyd gan yr LFB ar ddiwedd 2015 yn ymwneud â chaewyr drysau aneffeithiol mewn adeilad preswyl uchel iawn arall roedd yn ei reoli, Adair Tower, a Hysbysiad Diffyg a gyhoeddwyd yn 2016 mewn perthynas â Thŵr Grenfell ei hun ar yr un sail.

**2.67** Er nad oedd rhwymedigaeth ar y TMO i gynhyrchu cynllun ymadael cyffredinol, roedd ei Gynllun Argyfwng ar gyfer Tŵr Grenfell wedi dyddio ac yn anghyflawn ac ni wnaeth adlewyrchu'r newidiadau a achoswyd gan y gwaith adnewyddu. Roedd y TMO yn ymwybodol iawn o'r ffaith yn dilyn tân yn Nhŵr Adair yn Hydref 2015, ond methodd â mynd i'r afael ag ef. Roedd yr absenoldeb o hysbysiadau gweithredu tân yn y tŵr yn bwnc amlwg cwynion gan breswylwyr ac arweiniodd at gyhoeddi Hysbysiad Diffyg yn Nhachwedd 2016.

**2.68** Datgelodd dân Tŵr Grenfell y pwysigrwydd o sicrhau bod yr unigolyn cyfrifol o dan y Gorchymyn Diogelwch Tân yn casglu gwybodaeth ddigonol am unrhyw breswylwyr agored i niwed i alluogi PEEPs i gael eu paratoi, ac, yn achos tân, bod mesurau priodol yn cael eu cymryd i'w cynorthwyo i ddianc. Cymerodd y TMO rai camau i gasglu gwybodaeth o'r math honno, cyn yn ogystal ag yn ystod y gwaith adnewyddu, ond nid oedd ei systemau data wedi'u cydlynu'n gywir. Ni chafodd y fath wybodaeth a gafodd ei chasglu ei defnyddio bob amser i adolygu ei gofnodion, â'r canlyniad fod y daenlen ar gael ar noson y tân yn anghyflawn. Roedd methiant y TMO i gasglu'r fath wybodaeth yn gyfystyr ag esgeulustod sylfaenol o'i rwymedigaethau mewn perthynas â diogelwch tân.

# Rhan 6

## Adnewyddu Tŵr Grenfell (pennod 47 - 67)

**2.69** Yn y Rhan hon rydym yn olrhain tarddiadau'r prosiect adnewyddu a'i berthynas â phrosiectau Academi a Chanolfan Hamdden Kensington Aldbridge (KALC). Rydym yn disgrifio'r unigolion a sefydliadau a gymerodd brif ran yn y prosiect a'r cefndir deddfwriaethol y cafodd y gwaith adnewyddu ei gyflawni yn ei erbyn. Rydym hefyd yn nodi dwy broblem arwyddocaol yn ymwneud â Dogfen Gymeradwy B sy'n galw am sylw brys yn ein barn ni. Y gyntaf yw'r rhagdybiaeth y bydd cydymffurfio â gofynion swyddogaethol B3 a B4 yn darparu graddfa uchel o adrannu, gan wneud gwagio'r adeilad felly yn ddiangen. Yr ail yw'r tyndra rhwng gofynion swyddogaethol y Rheoliadau Adeiladu ac iaith ragnodol y cyfarwyddyd a'r duedd gan lawer yn y diwydiant i drin y cyfarwyddyd yn ddiffiniol.

**2.70** Rydym yn esbonio sut y dylanwadodd y prosiect KALC ar benodiad Studio E fel pensaer ac yn disgrifio'r ffordd y camddefnyddiodd y TMO y broses gaffael i osgoi gorfod rhoi'r contract ar gyfer gwasanaethau pensaernïol allan i dendr cyhoeddus. Cafodd Artelia ei benodi gan y TMO fel ymgynghorydd, wedi gweithredu fel asiant cyflogwr a syrfëwr meintiau ar gyfer y prosiect KALC.

**2.71** Fe wnaeth y cynlluniau cychwynnol ar gyfer y gwaith adnewyddu brofi anawsterau oherwydd yr aeth cost amcangyfrifedig y prosiect a gynhyrchwyd gan y prif gontractwr ar y prosiect KALC dros y gyllideb o swm sylweddol. Fodd bynnag, o gwmpas Mai 2013 newidiodd pwyslais blaenorol y TMO ar gynnal momentwm y prosiect i un o arbed cost. Arweioniodd hynny yn ei dro at argymhelliad, a gefnogwyd yn gyndyn gan Artelia, y dylai prif gontractwr gael ei benodi trwy broses gaffael ffurfiol. Cafodd y fath broses ei gwethredu wedyn.

**2.72** Er mai tendr Rydon a farnwyd i fod y mwyaf cystadleuol, roedd yn dal y tu hwnt i gyllideb TMO. O ganlyniad, er bod y TMO wedi derbyn cyngor gan ei gyfreithwyr y byddai'n amhriodol i wneud hynny, aeth i mewn i drafodaethau â Rydon cyn i'r broses gaffael gael ei chwblhau gan arwain at gytundeb, pe dyfernid y contract i Rydon, byddai'n gostwng ei bris i lefel dderbyniol.

**2.73** Er bod Studio E wedi dymuno defnyddio paneli sgrîn glaw sinc, daeth cost yn ystyriaeth gynyddol bwysig i'r TMO ac yn y pen draw cafodd deunydd alwminiwm cyfansawdd ei ddewis (ACM), Reynobond 55 PE, i raddau helaeth ar sail cost. Roedd Rydon yn gallu cynnig arbediad sylweddol trwy'r defnydd o baneli ACM o ganlyniad i'w berthynas â'i is-gontractwr cladin arfaethedig, Harley.

**2.74** Deilliodd y dewis o ddeunyddiau llosgadwy ar gyfer cladin Tŵr Grenfell o gyfres o wallau a achoswyd gan anghymwyster y sefydliadau ac unigolion oedd yn cymryd rhan yn y gwaith adnewyddu. Cymerodd Studio E, Rydon a Harley oll ymagwedd hamddenol at berthnasoedd contractiol. Nid oeddent yn deall yn gywir natur a chwmpas y rhwymedigaethau roeddent wedi ymgymryd â nhw, neu, os oeddent, prin iawn o sylw a dalasant iddynt. Fe wnaethant fethu ag adnabod eu cyfrifoldebau eu hunain ar gyfer agweddau pwysig o'r dyluniad ac ym mhob achos gwnaethant ragdybio bod rhywun arall yn gyfrifol am faterion yn effeithio ar ddiogelwch tân. Roedd pawb oedd yn cymryd rhan yn y dewis o ddeunyddiau i'w defnyddio yn y wal allanol yn meddwl bod cyfrifoldeb dros eu haddasrwydd a diogelwch yn gorwedd â rhywun arall.

**2.75** Ni weithredodd neb o'r rheini oedd yn cymryd rhan yn nyluniad y wal allanol na'r dewis o ddeunyddiau yn unol â safonau unigolyn rhesymol o gymwys yn eu safle. Nid oeddent yn gyfarwydd â'r darpariaethau perthnasol nac yn deall y Rheoliadau Adeiladu, Dogfen Gymerdawy B na chyfarwyddyd diwydiant. Arddangosodd Studio E agwedd ddi-hid at y rheoliadau yn effeithio ar ddiogelwch tân a dibynnodd Rydon a Harley ar eu profiad blaenorol yn hytrach nac ar unrhyw ddadansoddiad neu arbenigedd technegol. Roedd y risgiau o ddefnyddio deunyddiau llosgadwy yn waliau allanol adeiladau uchel iawn yn hysbys iawn a dylent fod wedi bod yn ymwybodol ohonynt.

**2.76** Ni wnaeth rheolaeth adeiladu RBKC graffu'n gywir ar y dyluniad na'r dewis o ddeunyddiau a methodd â bodloni ei hun ar gwblhau'r gwaith y byddai'r adeilad yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau Adeiladu.

**2.77** Cafodd Exova gyfarwyddiadau gan Studio E ar ran y TMO i baratoi strategaeth diogelwch tân ar gyfer yr adeilad ar ei ffurf wedi'i adnewyddu. Cafodd drafft ei baratoi ond ni chafodd erioed ei gwblhau. Yn benodol, ni wnaeth gynnwys dadansoddiad o'r wal allanol na'i gydymffurfiaeth â gofyniad swyddogaethol B4(1) o'r Rheoliadau Adeiladu.

**2.78** Er bod ein beriniadaethau'n cael eu cyfeirio'n bennaf at Studio E, Exova, Rydon, Harley a rheolaeth adeiladu RBKC, mae'n rhaid i'r TMO ysgwyddo cyfran o'r bai am y drychineb oherwydd methodd â sicrhau bod sefyllfa Exova wedi cael ei egluro ar ôl i Rydon gael ei benodi a bod y strategaeth tân wedi cael ei chwblhau.

**2.79** Fel pensaer Studio E oedd yn gyfrifol am ddyluniad y wal allanol ac am y dewis o'r deunyddiau a ddefnyddiwyd wrth ei adeiladu.[6] Er bod y TMO fel y cleient am leihau'r gost trwy ddefnyddio paneli sgrin glaw ACM, cyfrifoldeb Studio E oedd penderfynu a fyddai defnydd y fath ddeunydd yn galluogi'r adeilad i gydymffurfio â gofyniad swyddogaethol B4(1) o'r Rheoliadau Adeiladu a chynghori'r TMO yn briodol. Cynrychioloodd ei fethiant i gydnabod bod ACM yn beryglus ac i rybuddio'r TMO yn erbyn ei ddefnydd fethiant i weithredu yn unol â safon pensaer rhesymol gymwys. Methodd hefyd â chydnabod bod deunydd inswleiddio Celotex yn llosgadwy ac yn anaddas ar gyfer defnydd ar adeilad dros 18 metr o ran uchder yn unol â'r cyfarwyddyd statudol. Mae Studio E felly yn dwyn graddfa sylweddol iawn o gyfrifoldeb am y drychineb.

**2.80** Rydym wedi adnabod llawer agwedd arall y methodd Studio E ag ateb safonau pensaer rhesymol gymwys ynddynt, a'r canlynol yw'r rhai mwyaf arwyddocaol. Methodd â sicrhau bod Exova wedi cwblhau'r strategaeth diogelwch tân ar gyfer yr adeilad wedi'i adnewyddu nac i hysbysu Rydon a'r TMO y dylid gofyn iddo wneud hynny. Methodd â deall ei fod yn gyfrifol am waith dylunio a gyflawnwyd gan is-gontracwyr ac felly ni wnaeth wirio dyluniadau Harley i sicrhau, ar ôl cwblhau y byddai'r adeilad yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Ni ddyfeisodd strategaeth rhwystr ceudod cywir na gwirio dyluniadau Harley ar gyfer y rhwystrau ceudod a methodd â chynhyrchu lluniadau manwl o giliau'r ffenestri, nac i sylwi bod y deunyddiau a ddewiswyd ar gyfer paneli mewnlenwi'r ffenestri yn anaddas.

**2.81** Mae Exova hefyd yn dwyn cyfrifoldeb sylweddol am y ffaith fod Tŵr Grenfell mewn cyflwr peryglus ar ôl cwblhau'r gwaith adnewyddu.[7] Ein pryder mwyaf difrifol yw y methodd â chynhyrchu fersiwn derfynol o'r strategaeth diogelwch tân a'i fod wedi methu naill ai tynnu'r ffaith honno at sylw'r tîm dylunio nac i'w rybuddio am y canlyniadau posibl. Ni ymwelodd neb o'r rhai oedd yn gyfrifol am ddrafftio'r strategaeth tân â Thŵr Grenfell; digwyddodd yr unig ymweliad safle gan aelod o staff Exova ar gam rhagarweiniol. Roedd agwedd Exova yn gwbl anghyson â'r ymagwedd ofalus at faterion yn effeithio ar ddioglewch bywyd i'w ddisgwyl o beriannydd tân rhesymol gymwys.

[6] Gweler yn gyffredinol Rhan 6 Pennod 63.
[7] Gweler yn gyffredinol Rhan 6 Pennod 54.

**2.82** Rydym yn ystyried bod y prif gontractwr, Rydon, hefyd yn dwyn cyfrifoldeb sylweddol am y tân.[8] Rhoddodd feddwl annigonol i ddiogelwch tân, y dangosodd agwedd hamddenol tuag ato trwy gydol y prosiect ac ni wnaeth ei systemau ar gyfer rheoli'r gwaith dylunio sicrhau bod ei is-gontractwyr ac ymgynghorwyr wedi deall eu cyfrifoldebau gwahanol yn gywir. Ni ddeallodd Rydon ei hun lle gorweddai cyfrifoldeb dros benderfyniadau unigol ac o ganlyniad methodd â chydlynu'r gwaith dylunio yn gywir.

**2.83** Roedd gan Rydon dîm amhrofiadol ar y gwaith adnewyddu nad oedd â gwybodaeth ddigonol o'r Rheoliadau Adeiladu na Dogfen Gymeradwy B. Dibynnodd yn llwyr ar ei is-gontracwr cladin, Harley, i dynnu ei sylw at unrhyw wallau yn y dyluniad, ond ni ofynnodd yn benodol i Harley asesu gwaith Studio E. Methodd â chymryd camau cywir i ymchwilio i gymhwysedd Harley a sicrhau ei fod yn gymwys i ymgymryd â gwaith ac yn gallu darparu'r gwasanaethau oedd yn ofynnol ganddo. Roedd yn hunanfodlon am yr angen am gyngor perianneg tân a chymerodd y penderfyniad i beidio â chadw Exova heb ymgynghori â'r TMO, Studio E nac Artelia. Roedd ei ddealltwriaeth o'r gwaith a gwblhawyd eisoes gan Exova yn arwynebol; o ganlyniad, methodd â sylweddoli nad oedd y stratgaeth dân wedi cael ei chwblhau.

**2.84** Methodd Harley ei hun mewn llawer agwedd ag ateb y safonau i'w disgwyl gan gontractwr cladin rhesymol gymwys ac mae yntau hefyd yn dwyn graddfa sylweddol o gyfrifoldeb am y tân.[9] Ni wnaeth ymwneud yn ddigonol â diogelwch tân ar unrhyw gam o'r gwaith adnewyddu ac mae'n ymddangos ei fod wedi meddwl nad oedd angen iddo wneud hynny, oherwydd y byddai eraill yn cymryd rhan yn y prosiect, ac yn pen draw rheolaeth adeiladu, yn sicrhau bod y dyluniad yn ddiogel. Methodd â gofyn y math o gwestiynau am y deunyddiau'n cael eu hystyried y byddai contractwr cladin rhesymol gymwys wedi eu gofyn. Cafodd ei ddarbwyllo i brynu paneli Reynobond 55 PE yn rhannol oherwydd ei berthynas bresennol ag Arconic a'r gwneuthurwr cladin, CEP Architectural Facades, yr oedd yn gallu negodi pris ffafriol ag ef. Roedd ei staff yn anymwybodol o'r Rheoliadau Adeiladu yn ymwneud â diogelwch tân, y cyfarwyddyd yn Nogfen Gymeradwy B na chyfarwyddyd diwydiant ac nid oedd yn deall y drefn brofi sylfaenol.

**2.85** Er nad oedd Celotex RS5000 (yn hytrach na Celotex FR5000) wedi cael ei nodi, derbyniodd Harley ef i'w ddefnyddio ar y tŵr heb ymholi mewn unrhyw fanylder a allai gael ei ddefnyddio'n ddiogel ac ni ofynnodd y cwestiwn hwnnw i unrhyw un o aelodau eraill y tîm dylunio cyn gwneud hynny. Roedd ei ddyluniad ar gyfer y rhwystrau ceudod yn anghyflawn ac ni chydymffurfiodd â'r cyfarwyddyd yn Nogfen Gymeradwy B.

**2.86** Methodd adran rheolaeth adeiladu RBKC â chyflawni ei swyddogaeth statudol o sicrhau y cydymffurfiodd y gwaith adnewyddu â'r Rheoliadau Adeiladu.[10] Mae'n dwyn cyfrifoldeb sylweddol felly am gyflwr peryglus yr adeilad yn syth ar ôl cwblhau'r gwaith. Roedd y syrfëwr oedd yn gyfrifol am y gwaith adnewyddu wedi'i orweithio, wedi'i hyfforddi'n annigonol ac roedd ganddo ddealltwriaeth gyfyngedig iawn o'r risgiau cysylltiedig â'r defnydd o baneli ACM. Methodd â chael gwybodaeth lawn am adeiladu'r wal allanol ar gam cais y cynlluniau llawn ac ni ofynnodd a oedd Exova wedi darparu strategaeth diogelwch tân gyflawn. Gwyddai fod ACM i'w ddefnyddio fel y sgrîn glaw ond talodd ychydig neu ddim sylw at y dystysgrif BBA ar gyfer Reynobond 55 PE. Methodd â chydnabod nad oedd Celotex RS5000 yn ddeunydd o losgadwyedd cyfyngedig ac, os edrychodd ar unrhyw wybodaeth amdano, derbyniodd yn syml yr honiad ei fod yn addas i'w ddefnyddio ar adeiladau tal. Methodd ag ystyried a oedd system y wal allanol a gynigiwyd ar gyfer Tŵr Grenfell yr un peth â honno a brofwyd gan Celotex ac y dywedwyd iddi gefnogi'r defnydd o RS5000.

8 Gweler yn gyffredinol Rhan 6 Pennod 64
9 Gweler yn gyffredinol Rhan 6 Pennod 65.
10 Gweler yn gyffredinol Rhan 6 pennod 62

**2.87** Mae'n rhaid i'r TMO hefyd gymryd cyfran o'r bai am y drychineb.[11] Fel y cleient methodd â chymryd gofal digonol yn ei ddewis o bensaer a thalodd sylw annigonol at faterion yn effeithio ar ddiogelwch tân, gan gynnwys gwaith y peiriannydd tân.

[11] Gweler yn gyffredinol Rhan 6 pennod 66

## Rhan 7

## Amnewid y codwr nwy (Pennod 68)

2.88 Mae'r bennod fer hon yn disgrifio'r gwaith a gyflawnwyd yn 2016 a 2017 i amnewid un o'r chwe chodwr nwy yn Nhŵr Grenfell a oedd yn dioddef o rydu. Roedd diffygion yn y dyluniad a gweithrediad y gwaith, yr ydym yn tynnu sylw ato. Nid oedd y gwaith wedi cael ei gwblhau erbyn adeg y tân, ond ni wnaeth y diffygion rydym wedi eu nodi na'r methiant o fod wedi cwblhau'r gwaith wedi cyfrannu at y tân.

2.89 Ar noson y tân nid oedd yn bosibl canfod y ddwy falf ynysu piblinell a ddyluniwyd i alluogi'r cyflenwad o nwy i'r tŵr gael ei gau'n gyflym, bron yn sicr oherwydd eu bod wedi cael eu gorchuddio yng nghwrs gwaith tirlunio. Fodd bynnag, ni effeithiodd hynny ar gwrs digwyddiadau ynghylch y tân oherwydd byddai malurion yn llosgi yn syrthio ar ochr ddwyreiniol y tŵr wedi atal mynediad atynt.

## Rhan 8

## Brigâd Dân Llundain (Penodau 69 - 83)

**2.90** Dylai tân Lakanal House yng Ngorffennaf 2009 fod wedi deffro'r LFB i ddiffygion yn ei gallu i ymladd tanau mewn adeiladau uchel iawn a ddatgelodd eu hunain unwaith eto yn Nhŵr Grenfell ar noson 14 Mehefin 2017. Gallai'r diffygion hynny fod wedi cael eu cywiro pe byddai'r LFB wedi cael ei rheoli a'i harwain yn well. Yn benodol, dylai fod wedi ymateb yn fwy effeithiol i'w phrofiad yn Lakanal House a gwneud defnydd gwell o'r wybodaeth roedd wedi ei hennill o'r peryglon a gyfwynir gan ddeunyddiau a dulliau adeiladu modern. Yn bwysig, methodd â sicrhau yn y blynyddoedd yn union cyn tân Tŵr Grenfell bod hyfforddiant rheolaidd o fath addas wedi cael ei ddarparu i'w weithredwyr ystafell reoli ar drafod llawer o alwadau cyfarwyddyd goroesi tân ar yr un pryd ac ar eu dyletswyddau yn fwy cyffredinol. Methodd uwch reolwyr yn yr LFB â chymryd camau i sicrhau bod ei threfniadau ar gyfer trafod galwadau goroesi tân yn adlewyrchu canllawiau cenedlaethol.

**2.91** Roedd y methiannau hynny yn briodoladwy i ddiffyg cronig o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol, wedi'u cyfuno â phwyslais amhriodol ar broses. Roedd uwch swyddogion yn hunanfodlon am effeithlonrwydd gweithrediadol y frigâd ac roeddent yn brin o'r sgiliau rheoli i nodi'r problemau neu'r ewyllys i'w cywiro Roedd y gwendidau rheolaethol hynny yn rhannol yn ganlyniad i fethiant hanesyddol i integreiddio'r adrannau gweithrediadol a'r adrannau cyfrifol am swyddogaethau cymorth, yn enwedig yr ystafell reoli. Roedd tuedd i drin problemau y daeth rheolwyr yn ymwybodol ohonynt fel rhai nad oedd yn haeddu newid neu'n rhy anodd i'w datrys, hyd yn oed pan oeddent yn ymwneud â diogelwch gweithrediadol neu gyhoeddus.

**2.92** Gwaethygwyd y methiannau hynny gan ragdybiaeth wedi'i hen ymwreiddio ond heb sail fod y Rheoliadau Adeiladu yn ddigonol i sicrhau na fyddai tanau wal allanol o'r fath oedd yn hysbys o fod wedi digwydd mewn gwledydd eraill yn digwydd yn y wlad hon. Ar ôl tan Lakanal House cydnabu uwch swyddogion tân na ellid gwarantu cydymffurfiaeth â'r rheoliadau, ond nid yw'n ymddangos bod neb wedi meddwl bod angen i ymladdwyr tân gael eu hyfforddi i nodi a delio â'r canlyniadau.

**2.93** Roedd y prif fethiannau ar ran yr LFB a arweiniodd at y diffygion a nodwyd yn adroddiad Cam 1 yn cynnwys methiant i nodi anghenion hyfforddiant wedi'u cyfuno â system ar gyfer comisiynu pecynnau hyfforddiant newydd oedd yn drwsgl ac yn araf. Roedd hyfforddiant trefn digwyddiadau wedi'i ddyfeisio'n wael ac ni chafodd ei gyflawni'n effeithiol; cafodd darpariaeth annigonol ei gwneud ar gyfer hyfforddiant gloywi ac asesu rheolaidd.

**2.94** Methodd yr LFB â sicrhau bod yr wybodaeth am y peryglon a gyflwynwyd gan y defnydd cynyddol o ddeunyddiau llosgadwy, yn enwedig y risg o ledaeniad tan allanol a'r golled ddilynol o adrannu, a ddaliwyd gan rai swyddogion arbenigol yn cael ei rhannu â'r sefydliad ehangach a'i adlewyrchu mewn hyfforddiant, polisïau a gweithdrefnau gweithrediadol. Ni rhoddwyd hyfforddiant na chyfarwyddyd cywir i ymladdwyr tân ar sut i gyflawni arolygiadau o adeiladau cymhleth ac nid oedd trefniadau effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth am risgiau a gyflwynwyd gan adeiladau neilltuol. Ni chafodd argymhellion mewnol ar gyfer gwella'r archwilio o adeiladau preswyl uchel iawn eu gweithredu.

**2.95** Ni wnaeth y polisi ar ymladd tân mewn adeiladau uchel adlewyrchu cyfarwyddyd cenedlaethol a methodd uwch reolwyr â chydnabod bod cynhyrchu cynlluniau argyfwng ar gyfer gwagio llawn a hyfforddi ymladdwyr tân i'w gweithredu yn rhan hanfodol o ymladd tanau mewn adeiladau uchel iawn.

**2.96** Un diffyg arwyddocaol oedd methiant i gydnabod y posibilrwydd yn achos tân mewn adeilad preswyl uchel iawn y gallai nifer fawr o alwadau yn ceisio cymorth, o'r tu mewn a thu allan i'r adeilad, gael eu cynhyrchu. Methodd yr LFB â chymryd unrhyw gamau i'w galluogi i ymateb yn effeithiol i'r math hwnnw o alw. O ganlyniad, pan wynebwyd â nifer fawr o alwadau am bobl ag angen cael eu hachub o Dŵr Grenfell, gorfodwyd y rheini yn yr ystafell reoli a'r rheini oedd y gyfrifol am drin yr wybodaeth honno yn safle'r tân i droi at ddulliau amrywiol byrfyfyr o ddibynadwyedd amrywiol i ymdrin â'r swm mawr o wybodaeth a dderbyniwyd ganddynt.

**2.97** Deallodd yr uwch swyddogion cyfrifol am yr ystafell reoli'r angen i roi blaenoriaeth i hyfforddiant staff mewn ymdrin â galwadau cyfarwyddyd goroesi tân, ond yn y blynyddoedd rhwng 2010 a 2017 ni chafodd unrhyw hyfforddiant gloywi strwythuredig na rheolaidd mewn ymdrin â galwadau cyfarwyddyd goroesi tân eu dylunio na'u cyflawni i staff yr ystafell reoli. Ni wnaeth y fath hyfforddiant ag a gafodd ei ddarparu adlewyrchu cyfarwyddyd cenedlaethol mewn rhai agweddau; ni wnaeth ymateb chwaith i brofiad y swyddogion hynny yn yr ystafell reoli oedd wedi bod ar ddyletswydd ar adeg tân Lakanal House. Roedd y methiannau yng ngweithrediad effeithiol yr ystafell reoli i raddau helaeth oherwydd rheoli gwan dros y blynyddoedd blaenorol wedi'i gyfuno ag arolygu ysbeidiol ac aneffeithiol gan uwch swyddogion.

**2.98** Gweithredodd y cyfarpar cyfathrebu oedd yn cael ei ddefnyddio ar adeg tân Twr Grenfell yn annigonol mewn adeilad uchel iawn wedi'i adeiladu i raddau helaeth o goncrit wedi'i atgyfnerthu. Roedd honno'n broblem adnabyddus ond nid oedd dim wedi'i wneud i'w hysgafnhau ac nid oedd ymladdwyr tân wedi'u hyfforddi i adnabod ac ymateb iddo. Ymagwedd yr LFB oedd gwneud ei gorau â'r hyn oedd ar gael iddi. O ganlyniad, methodd â gwneud ymdrechion digonol i foderneiddio ei chyfarpar, gan amharu'n sylweddol felly ar ei heffeithlonrwydd gweithrediadol. Ni wnaeth polisïau'r LFB ragweld colled eang o gyfathrebu na darparu cyfarwyddyd ar sut y gallai gael ei adfer yn effeithiol.

## Rhan 9

## Yr ymadawedig (Penodau 84 - 97)

**2.99** Mae'r disgrifiad manwl o ddigwyddiadau 14 Mehefin 2017 a gynhwyswyd yn adroddiad Cam 1 yn ein rhoi mewn safle da i wneud canfyddiadau cynhwysfawr am yr amgylchiadau yn yr hyn y cyfarfu yr ymadawedig â'u marwolaethau. Er mai mater i'r crwner yw penderfynu a ddylai hi fabwysiadu ein canfyddiadau fel digonol i'w galluogi hi i weithredu ei chyfrifoldebau, rydym yn gobeithio y bydd hi'n gallu gwneud hynny ac felly'n arbed y rhai mewn profedigaeth rhag gofid ymchwiliad arall.

**2.100** Rydym yn dechrau'r Rhan hon â chyflwyniad cyffredinol wedi'i ddilyn gan ddisgrifiad o'r dulliau gofalus a fabwysiadwyd i adfer ac adnabod gweddillion yr unigolion a fu farw. Yn y cyd-destun hwnnw rydym yn cyfeirio at waith y timau o archaeolegwyr fforensig, anthropolegwyr fforensig a phatholegwyr fforensig, yn ogystal ag arbenigwyr eraill a swyddogion nodi dioddefwyr a swyddogion chwilio trwyddedig. Rydym hefyd yn disgrifio mewn termau cyffredinol y dystiolaeth a roddwyd gan yr Athro David Purser CBE BSc PhD DipRCPath, arbenigwr ar docsicoleg.

**2.101** Rydym yn neilltuo pennod ar wahân o'r Rhan hon i bob llawr y bu farw pobl arnynt. Ar ôl disgrifiad cyffredinol o'r amgylchiadau yn effeithio ar y llawr hwnnw, mae ein canfyddiadau yn delio yn eu tro â phob un o'r rheini a fu farw ar, neu a syrthiodd o'r llawr hwnnw. Yn achos y rheini a fu farw ar y grisiau rydym wedi disgrifio'r amgylchiadau yn ymwneud â'r llawr yr oedd eu fflat wedi ei leoli arno. Ym mhob achos rydym yn rhoi disgrifiad byr o'r ymadawedig cyn disgrifio'r amgylchiadau uniongyrchol y bu ef neu hi farw ynddynt.

**2.102** Er bod y dystiolaeth weithiau braidd yn ddryslyd, rydym wedi gallu gwneud canfyddiadau am alwadau argyfwng a wnaed gan y rheini oedd wedi cael eu dal, trosglwyddo'r wybodaeth o ystafell reoli LFB i safle'r digwyddiad ac o'r fan honno i'r safle allweddol a'r defnydd o ymladdwyr tân mewn ymateb. I'r graddau posibl rydym wedi gwneud yr hyn rydym yn ei ystyried i fod yn ganfyddiadau dibynadwy am amser y farwolaeth ym mhob achos, er ei fod, mewn llawer o achosion, yn anochel mae mesur mawr o ansicrwydd. Yng ngolau'r dystiolaeth arbenigol rydym yn gallu gwneud canfyddiadau am achos y farwolaeth, gan gynnwys canfyddiadau bod cyrff pob un o'r rheini a gafodd eu dinistrio gan y tân wedi marw neu'n anymwybodol cyn i'r tân eu cyrraedd.

# Rhan 10

## Ymateb ac adferiad (Penodau 98 - 107)

**2.103** Yn yr wythnos gyntaf ar ôl y tân yn Nhŵr Grenfell roedd ymateb y llywodraeth a RKBC yn ddryslyd, araf, ansicr a thameidiog. Roedd systemau ac arweinyddiaeth RKBC yn gwbl annigonol i'r dasg o ymdrin â digwyddiad o'r fath faintioli a difrifoldeb, gan gynnwys, fel y gwnaeth, digartrefedd torfol a marwolaethau torfol. Nid oedd y peirianwaith cydnerthedd yn Llundain ac o fewn llywodraeth leol yn ddigon hyblyg a chymerodd ormod o amser i symud i weithredu.

**2.104** Dangosodd agweddau penodol o'r ymateb ddiffyg parch amlwg at barchusrwydd ac urddas dynol a gadawaodd lawer o'r rheini a effeithiwyd yn uniongyrchol yn teimlo eu bod wedi'u gadael gan awdurdod ac yn gwbl ddiymadferth. Dylai RKBC fod wedi gwneud mwy i ddarparu ar gyfer y rheini o gefndiroedd amrywiol, yn enwedig y preswylwyr niferus hynny o'r ffydd Foslemaidd oedd yn ufuddhau i Ramadan ar y pryd. Cawsant eu gadael yn teimlo nad oedd gan y cyngor unrhyw ystyriaeth ar gyfer eu hanghenion diwylliannol a chrefyddol. I lawer, eu hunig ffynhonnell o gymorth oedd sefydliadau gwirfoddol lleol, a symudodd i mewn i helpu a darparu ar gyfer anghenion sylfaenol lle roedd y rheini mewn awdurdod wedi methu. Dioddefodd lawer oedd ag anghenion crefyddol, diwylliannol neu gymdeithasol neilltuol raddfa sylweddol o wahaniaethu mewn ffyrdd a allai ac a fyddai wedi cael eu hatal pe byddai'r cyfarwyddyd wedi cael ei ddilyn yn gywir.

**2.105** Roedd yr ymateb i'r drychineb yn annigonol yn gyntaf oherwydd nad oedd gan RKBC gynllun effeithiol i ddelio â dadleoli nifer fawr o bobl o'u cartrefi ac nid oedd y fath gynllun ag oedd ganddynt wedi gwneud defnydd effeithiol o'r TMO. Nid oedd wedi gwneud unrhyw drefniadau wrth gefn ar gyfer cael swm mawr o lety argyfwng ar fyr rybudd ac nid oedd ganddo drefniadau ar gyfer nodi'r rheini oedd wedi cael eu gorfodi i adael eu cartrefi nac ar gyfer cyfathrebu â nhw. Roedd trefniadau ar gyfer cael a dosbarthu gwybodaeth ddibynadwy hefyd yn ddiffygiol.

**2.106** Un rheswm am y diffyg cynlluniau oedd fod RKBC wedi methu â hyfforddi ei staff yn ddigonol. Nid oedd ganddynt ddealltwriaeth ddigonol o bwysigrwydd cydnerthedd nac ymroddiad digonol iddo. Nid oedd ymarferion wedi cael eu cynnal yn rheolaidd ac nid oedd wedi bod yn ofynol i staff fynychu'r sesiynau hyfforddi a redwyd gan Grwp Cydnerthedd Llundain. Nid oedd diffygion a oedd yn hysbys iawn i uwch reolwyr wedi cael eu cywiro.

**2.107** Dros nifer o flynyddoedd, roedd RKBC wedi caniatáu i gapasiti eu staff i ymateb i argyfyngau mawr ddirywio. Roedd rhybuddion eglur wedi bod i uwch reolwyr nad oedd ganddynt ddigon o staff hyfforddedig i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau fel ymatebwr categori 1 ac nad oedd cynlluniau wrth gefn wedi cael eu hymarfer digon. O ganlyniad, roedd RKBC yn brin o bobl oedd eu hangen arno i ymateb i'r tân yn effeithiol, at ddibenion staffio canolfan gyfathrebu argyfwng y fwrdeistref ac i ddelio â'r rheini yr oedd angen cymorth arnynt. Roedd felly wedi'i arfogi'n wael i ddelio ag argyfwng difrifol. Nid oedd dim o hynny oherwydd unrhyw brinder o adnoddau ariannol.

**2.108** Nid oedd prif weithredwr RKBC, Nicholad Holgate, yn gallu cymryd rheolaeth effeithiol ar y sefyllfa a symud cymorth o'r math cywir heb oedi. Nid oedd ganddo gynllun eglur ac ni dderbyniodd yr holl wybodaeth oedd ei angen arno. Nid oedd yn gweddu'n dda i ddelio â'r argyfwng oedd yn esbygu o'i flaen ac roedd yn brin o grŵp cryf o swyddogion y gallai ddirprwyo cyfrifoldeb iddynt ar gyfer rhai agweddau ar yr ymateb. Roedd yn gyndyn o gymryd cyngor gan y rheini â phrofiad helaethach ac roedd yn pryderu'n amhriodol am enw da RKBC.

**2.109** Roedd RKBC wedi methu ag integreiddio'r TMO i'w gynllunio argyfwng. Dylai fod wedi sylweddoli y gallai gwybodaeth TMO am ei adeiladau a'u preswylwyr chwarae rhan bwysig yn yr ymateb i unrhyw drychineb yn effeithio ar unrhyw ran o'i stoc tai.

**2.110** Ni ddarparodd y trefniadau a gynlluniwyd i hyrwyddo cydnerthedd Llundain yn ei chyfanrwydd ar gyfer arweinydd profiadol i gymryd at gyfarwyddo'r ymateb i drychineb oedd wedi digwydd o fewn ffiniau bwrdeistref unigol ac eithrio trwy gytundeb â phrif weithredwr y fwrdeistref honno. Yn y digwyddiad, cafodd Nicholas Holgate ei berswadio o dan bwysau gan uwch swyddog llywodraeth i drosglwyddo rheolaeth i John Barradell, ond nid hyd dau ddiwrnod ar ôl y tân.

**2.111** Roedd hyfforddiant personél cydnerthedd yn Llundain yn dameidiog ac nid oedd wedi'i gydlynu; roedd bron yn wirfoddol ac nid yn ddarostyngedig i unrhyw asesu na dilysu allanol. Cyfrannodd hynny at sefyllfa lle roedd capasiti awdurdodau lleol unigol i ymateb i argyfyngau'n amrywio rhwng bwrdeistrefi.

**2.112** Dechreuodd y llywodraeth fonitro'r ymateb i'r tân yn gynnar, ond roedd ei gallu i gymryd camau effeithiol yn cael ei thanseilio gan brinder o wybodaeth ddibynadwy a chan natur gyfyngedig ei phwerau i ymyrryd. Ni rhoddodd y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 y pŵer iddi gymryd rheolaeth ar yr ymateb heb alw ar y pwerau o dan adrannau 5 neu 7. Mae'r pwerau hynny yn bellgyrhaeddol ond yn drwsgl o ran eu gweithredu ac heb fod yn gweddu'n dda i gymryd rheolaeth ar yr ymateb pan yw awdurdod lleol yn methu.

**2.113** Denodd y TMO feirniadaeth o sawl cyfeiriad, ond mewn perthynas â'i ymateb i'r tân roedd llawer ohoni'n annheg. Er y dylai ei staff fod wedi derbyn mwy o hyfforddiant o ran sut i ymateb i argyfwng, fe wnaethant ymdaflu i'r ymateb a helpu i ddarparu cymorth, cyn belled ag yr oeddent wedi'u harfogi i wneud hynny. Ni wnaeth rhai o'r rheini o fewn llywodraeth a feirniadodd y TMO ddeall ei sefyllfa na chwmpas ei bwerau yn gywir, a chawsant eu llygru trwy gysylltiad ag RKBC. Nid oedd llawer o'r anawsterau a wynebwyd wrth ddychwelyd preswylwyr i fflatiau yn y llwybrau cerdded oherwydd ei weithredoedd ef. Mae'r timau TMO a aeth i rai o'r canolfannau gorffwys ar 14 Mehefin 2017 i roi pa gymorth a allent i'w canmol am eu parodrwydd i gymryd rhan uniongyrchol ac am yr ymdrechion a wnaethant ar yr hyn oedd yn adeg anodd iawn.

**2.114** Y rheini sy'n codi o'r digwyddiadau â'r clod mwyaf, ac y pwysleisiodd eu cyfraniad annigonolrwydd yr ymateb swyddogol, yw aelodau'r gymuned leol. Â chymorth sefydliadau gwirfoddol lleol, fe wnaethant ddarparu cymorth yn yr oriau yn syth ar ôl y tân pan oedd yr awdurdodau yn amlwg yn absennol. Yn wir, un o fethiannau RKBC oedd gwneud rhy ychydig o ddefnydd o'r sefydliadau gwirfoddol lleol ac i fethu â chael trefniadau digonol sefydlog i'w galluogi i gael eu galw arnynt yn achos argyfwng mawr.

# Rhan 11

## Materion yn sefyll o Gam 1 (penodau 108 - 110)

**2.115** Roedd dau fater yn dal yn sefyll o Gam 1. Roedd y cyntaf yn ymwneud â'r cyfraniadau olynol at y tân a wnaed gan y paneli sgrîn glaw ACM a'r byrddau ynysu polyisosyanwrad a ffenolig. Roedd yr ail yn ymwneud â'r mecanwaith roedd y tân wedi dianc trwyddo o gegin Fflat 16 i mewn i wal allanol yr adeilad.

**2.116** Mewn cyfres o arbrofion wedi'u cynllunio gan yr Athro Bisby a'r Athro Torero ac wedi'u cyflawni ym Mhrifysgol Caeredin gan yr Athro Bisby a'i gydweithwyr dangoswyd bod y paneli ACM wedi bod y cyfrannwr mwyaf posibl o bell i ryddhau ynni yn y system wal allanol yn Nhŵr Grenfell. Roedd gan Celotex RS5000 (ewyn polyisosyanwrad) a KIngspan K15 (ewyn ffenolig) gyfradd ryddhau gwres lawer is fesul ardal uned.

**2.117** Dangosodd yr arbrofion nad yw presenoldeb ceudod ar ei ben ei hun yn ddigonol i achosi tân yn y paneli sgrîn glaw i ddatblygu i gysylltiad llawn. Mae angen i ddeunydd inswleiddio fod yn bresennol hefyd, naill ai i gadw ynni yn y system neu i losgi a chyfrannu ynni ychwanegol. Arweiniodd hyd yn oed inswleiddio anllosgadwy ar ffurf gwlân mwnol yn nhwf y tân i gysylltiad lawn y panel ACM. Mae gan y dull o osod y paneli effaith sylweddol ar y ffordd y maen nhw'n perfformio mewn tân. Mae paneli ar ffurf casét yn ymddwyn yn waeth o lawer na phaneli ar ffurf rhybedog.

**2.118** Mae'r gwaith arbrofol yn cadarnhau mai'r prif ffactor a arweiniodd at dwf cyflym y tân oedd presenoldeb polyethylen heb ei addasu yng nghreiddiau'r paneli ACM yn hytrach na'r inswleiddio, er bod presenoldeb yr inswleiddio a'i allu i gadw gwres yn ffactor pendant o ran hyrwyddo twf y tân.

**2.119** Roedd yr ail fater oedd yn sefyll yn ymwneud â'r mecanwaith y dihangodd y tân drwyddo o gegin Fflat 16 i mewn i wal allanol yr adeilad. Roedd digwyddiad ail-greu a gyflawnwyd gan BRE ym Mai 2019 wedi ei arwain i ddod i'r casgliad bod y mecanwaith yn wahanol i'r hyn a gafodd ei nodi gan yr Athro Bisby a'r Athro Torero. Dangosodd y cadeirydd felly y byddai'r canfyddiadau a fynegwyd yn adroddiad Cam 1 yn aros yn amodol hyd eu bod wedi cael cyfle gwell i astudio adroddiad y digwyddiad ail-greu. Wedi gwneud hynny, daeth yr Athro Bisby a'r Athro Torero i'r casgliad nad oedd y digwyddiad ail-greu wedi bod yn wirioneddol gynrychioladol o'r tân a ddigwyddodd ar 14 Mehefin 2017 a gwnaethant lynu at eu barn wreiddiol. Rydym felly yn cadarnhau'r canfyddiadau a wnaed yn adroddiad Cam 1.

## Rhan 12

## Y drefn brofi tân (Pennod 111)

**2.120** Yn y blynyddoedd yn arwain at dan Tŵr Grenfell ni ddarparodd dulliau profi tân a oedd ar gael ar gyfer penderfynu'r adwaith i dân gan ddeunyddiau, cynhyrchion a hyd yn oed systemau wal allanol yr wybodaeth oedd ei hangen ar gynllunwyr i asesu'r risg o dân yn lledaenu ar draws wal allanol adeilad. Ymhellach, roedd y cyfarwyddyd statudol ar gydymffurfio â gofyniad gweithredol B4(1) y Rheoliadau Adeiladu yn sylfaenol ddiffygiol.

**2.121** Roedd y defnydd o Ddosbarth 0 fel safon perfformiad tân ar gyfer cynhyrchion i'w defnyddio ar wal allanol adeiladau tal yn hollol amhriodol. Ni adlewyrchodd y naill brif brawf Safonol Prydeinig na'r llall oedd yn berthnasol i'r dosbarthiad hwnnw fod tân wedi datblygu ar ochr allanol adeilad na darparu'r wybodaeth oedd ei hangen i asesu sut y byddai wal allanol yn ymgorffori'r cynnyrch yn perfformio mewn tân. Roedd y dosbarthiadau Ewropeaidd yn seiliedig ar y prawf llosgi eitem unigol o gymorth cyfyngedig tebyg wrth asesu perfformiad tân systemau wal allanol.

**2.122** Roedd y meini prawf perfformiad ar gyfer profion system graddfa fawr yn BR 135 yn annigonol, yn enwedig oherwydd na allent gael eu cysylltu'n amlwg â'r gofynion gweithredol yn y Rheoliadau Adeiladu na'r cyfarwyddyd yn Nogfen Gymeradwy B. Cawsant eu cyfeirio'n ormodol at ledaeniad fflamau trwy geudodau ac nid oeddent yn cynnwys meini prawf ar gyfer perfformiad mecanyddol. Darparodd y prawf BS 8414 ei hun wybodaeth gyfyngedig yn berthnasol i asesu'r gyfradd roedd tân yn debygol o ledaenu arni dros wal allanol. Yn hollbwysig, gallai system wal allanol oedd yn ateb y meini prawf yn BR 135 ddal i ganiatáu i dân ledaenu trwyddi a thu hwnt i adran y tarddiad ar gyfradd oedd yn anghydnaws â strategaeth aros yn yr unfan. Felly, er y byddai methiant i ateb y meini prawf perfformiad yn BR 135 yn arddangos bod system yn annhebygol o gydymffurfio â gofyniad gweithredol B4(1) y Rheoliadau Adeiladu, nid oedd y gwrthwyneb yn wir o reidrwydd. Gallai system ateb meini prawf perfformiad BR 135 ac eto fethu â chydymffurfio â'r gofyniad gweithredol.

**2.123** Roedd rhagdybiaeth eang ond cyfeiliornus, os oedd system wal allanol wedi'i phrofi yn unol â BS 8414 yn ateb y meini prawf perfformiad yn BR 135, byddai'r adeilad yn cydymffurfio â gofyniad gweithredol B4(1) heb unrhyw angen i ddadansoddi'r wybodaeth a gafwyd o'r prawf na'r amodau tebygol o gael eu profi mewn defnydd. Helpodd Dogfden Gymeradwy B barhau â'r rhagdybiaeth honno, nid y lleiaf trwy fethu ag egluro bod rhaid i ganlyniadau'r prawf gael eu dadansoddi ar y cyd â'r holl wybodaeth arall ar gael er mwyn deall y ffordd roedd y wal yn debygol o ymddwyn ynddi pan yn agored i'r fflamau a gwres tân adran a oedd wedi'i ddatblygu'n llawn Roedd y dull a fabwysiadwyd yn BR 135 ar gyfer asesu cydymffurfiaeth yn rhy syml. Darparodd ganlyniad llwyddo neu fethu syml, pan oedd canlyniadau'r prawf yn gofyn am raddfa o ddehongli y tu hwnt i gymhwysedd y rhan fwyaf yn y diwydiant.

## Rhan 13

## Ymateb gwledydd eraill (Pennod 112)

**2.124** Rydym wedi cyfeirio yng nghwrs ein hadroddiad at danau sydd wedi digwydd mewn adeiladau tal eraill o gwmpas y byd, yn bennaf o ganlyniad i'r defnydd o gynhyrchion sgrîn glaw ACM. Gyda chymorth yr Athro Torero, sydd â gwybodaeth helaeth am drefniadau rheoleiddiol mewn llawer o awdurdodaethau eraill, rydym wedi archwilio ymateb gwledydd eraill i'r perygl a gyflwynir gan gladin llosgadwy er mwyn gweld beth allwn ni ei ddysgu o'u profiad.

**2.125** Yn y bennod hon rydym yn disgrifio'r ymagweddau at y broblem sydd wedi cael eu mabwysiadu mewn gwledydd o'r Unol Daleithiau trwy Ewrop a'r Dwyrain Canol i Awstralia. Mae rhai gwledydd wedi mabwysiadu ymagwedd ragnodol at reoleiddio adeiladu, sy'n sylfaenol wahanol i drefn yn seiliedig ar ofynion gweithredol o'r math sy'n gymwys yn y wlad hon ac mae felly'n llai defnyddiol fel model. Mae eraill, fodd bynnag, yn enwedig Awstralia, wedi mabwysiadu gofynion gweithredol tebyg i'n gofynion ni ac yn darparu enghraifft y gallwn ddysgu ohoni.

## Rhan 14

## Argymhellion (Pennod 113)

**2.126** Rydym yn cael ein gwahodd gan ein Cylch Gorchwyl i wneud argymhellion y mae gennym reswm i gredu fydd yn helpu atal trychineb arall o'r fath a lethodd Tŵr Grenfell ac yn gwella gallu awdurdodau i ymateb i argyfyngau pan ddigwyddant, fel y byddant yn anochel.

**2.127** Nid ydym yn meddwl y byddai'n briodol nac o gymorth i ymdrechu i grynhoi'r argymhellion hynny yma oherwydd byddai gwneud hynny yn anochel yn methu â gwneud cyfiawnder â nhw. Dylem egluro, fodd bynnag, eu bod oll wedi'u seilio'n gadarn yn y dystiolaeth rydym wedi ei derbyn a'r canfyddiadau rydym wedi eu gwneud.

# Pennod 113

# Argymhellion

113.1 Rydym yn cael ein gwahodd gan ein Cylch Gorchwyl i argymell mesurau i gael eu cymryd mewn ymateb i unrhyw ddiffygion a ganfuom eu bod yn bodoli yn y materion o dan ymchwiliad. Rydym wedi grwpio ein hargymhellion trwy gyfeirnod i'r cynnwys maen nhw'n cyfeirio ato

## Y diwydiant adeiladu

113.2 Fel mae'n ymddangos o'r canfyddiadau yn ein hadroddiad, rydym yn fodlon fod y system o reoleiddio adeiladu ac adnewyddu adeiladau preswyl uchel iawn a fodolai ar adeg tân Tŵr Grenfell yn ddifrifol o ddiffygiol mewn nifer o agweddau. Roedd y cyfarwyddyd statudol yn Nogfen Gymeradwy B wedi ei geirio'n wael ac yn dueddol at gamarwain cynllunwyr i feddwl y byddai cydymffurfio â'i delerau yn anochel yn sicrhau y byddai'r adeilad yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol y Rheoliadau Adeiladu. Methodd yr adran lywodraeth sy'n gyfrifol am y Rheoliadau Adeiladu â monitro'n weithredol berfformiad y system a methodd â sicrhau bod peryglon y daeth yn ymwybodol ohonynt yn cael eu cyfathrebu i ddiwydiant. Nid oedd yn sensitif i'r angen i wneud newidiadau brys i'r cyfarwyddyd statudol os oedd amodau'n gofyn amdano.

113.3 Mae'r sylwadau sy'n dilyn wedi eu cyfeirio at y system ar gyfer sicrhau diogelwch rhag tân, ond nid oes gennym reswm i feddwl nad yw agweddau eraill ar ddiogelwch adeiladau yn destun ystyriaethau tebyg. Mae diogelwch pobl yn yr amgylchedd adeiledig yn dibynnu'n bennaf ar gyfuniad o dair prif elfen, dyluniad da, y dewis o ddeunyddiau addas a dulliau cadarn o adeiladu, pob un ohonynt yn dibynnu yn eu tro i fesur helaeth ar bedwerydd, sef sgìl, gwybodaeth a phrofiad y rheini sy'n ymwneud â'r diwydiant adeiladu. Yn anffodus, fel mae ein hymchwiliadau wedi dangos, ar adeg tân Tŵr Grenfell roedd diffygion difrifol ym mhob un o'r pedwar maes hynny.

### Y trefniadau rheoleiddiol

113.4 Rydym yn meddwl dros gwrs amser y daeth y trefniadau y cafodd y diwydiant adeiladu ei rheoleiddio o danynt yn rhy gymhleth a thameidiog. Ar adeg y tân roedd yr Adran ar gyfer Cymunedau a Llywodraeth Leol (yn awr Gweinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol) yn gyfrifol am y Rheoliadau Adeiladu a'r cyfarwyddyd statudol, yr Adran ar gyfer Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (yn awr yr Adran Busnes a Masnach) oedd yn gyfrifol am reoleiddio cynhyrchion a'r swyddfa gartref oedd yn gyfrifol am y gwasanaethau tân ac achub. Roedd rheolaeth adeiladu yn rhannol yn nwylo awdurdodau lleol ac yn rhannol yn nwylo arolygwyr cymeradwy yn gweithredu fel sefydliadau masnachol, roedd gorfodi'r gyfraith yn ymwneud â gwerthu cynhyrchion adeiladu yn cael ei gyflawni gan Safonau Masnach ac roedd sefydliadau masnachol yn darparu profi a gwasanaethau ardystio i weithgynhyrchwyr cynhyrchion. Achredodd UKAS sefydliadau yn gweithredu fel cyrff asesu cydymffurfiaeth. Yn ein barn ni, roedd y raddfa hon o ddarniad yn rysáit ar gyfer aneffeithlonrwydd ac yn rhwystr rhag rheoleiddio effeithiol.

## Rheoleiddio

**113.5** Yn ein barn ni dylai'r holl swyddogaethau rydym wedi cyfeirio atynt, yn ogystal â rhai eraill rydym yn cyfeirio atynt isod, gael eu hymarfer gan gorff annibynnol unigol wedi'i arwain gan unigolyn y byddwn, er mwyn cyfleuster, yn ei alw'n rheoleiddiwr adeiladu, yn adrodd i Ysgrifennydd Gwladol unigol. Byddai sefydlu'r fath reoleiddiwr yn dod â nifer o fuddion, nid amgen canolbwynt ar gyfer ysgogi newid sydd ei angen yn fawr yn niwylliant y diwydiant adeiladu Byddai'n galluogi gwybodaeth i gael ei rhannu'n effeithiol rhwng y rhai'n gyfrifol am agweddau gwahanol ar y diwydiant ac yn hyrwyddo cyfnewid syniadau. Gallai gwybodaeth ar ddatblygiadau yn y diwydiant, yn y wlad hon yn ogystal â thramor, gael ei rhannu yn haws rhwng pawb sydd â diddordeb ynddi. Rydym yn rhagweld y byddai gan reoleiddiwr adeiladu o'r fath adnoddau digonol i gymryd y swyddogaethau canlynol, y mae'r rhan fwyaf ohonynt ar hyn o bryd yn cael eu cyflawni gan y naill neu'r llall o amrywiaeth o gyrff:

a. Rheoleiddio cynhyrchion adeiladu;

b. datblygu dulliau addas ar gyfer profi adwaith deunyddiau a chynhyrchion y bwriedir eu defnyddio mewn adeiladu i dân;

c. profi ac ardystio'r fath gynhyrchion;

d. cyhoeddi tystysgrifau cydymffurfiaeth cynhyrchion adeiladu â gofynion deddfwriaeth, cyfarwyddyd statudol a safonau diwydiant;

e. rheoleiddio a goruchwylio rheolaeth adeiladu;

f. trwyddedu contractwyr i weithio ar adeiladau risg uwch;

g. monitro gweithrediad y Rheoliadau Adeiladu a'r cyfarwyddyd statudol a chynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ar yr angen am newid;

h. cyflawni ymchwil ar faterion sy'n effeithio ar ddiogelwch tân yn yr amgylchedd adeiledig;

i. casglu gwybodaeth, yn y wlad hon yn ogystal â thramor, ar faterion yn effeithio ar ddiogelwch tân;

j. cyfnewid gwybodaeth â'r gwasanaethau tân ac achub ar faterion yn effeithio ar ddiogelwch tân;

k. achredu aseswyr risg tân;

l. cynnal llyfrgell sydd ar gael yn gyhoeddus o ddata a chyhoeddiadau profion.

**113.6** Rydym yn ymwybodol yn y cyfnod ers tân Tŵr Grenfell mae'r Senedd wedi pasio'r Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 i reoleiddio gwaith ar adeiladau risg uwch, i osod dyletswyddau penodol ar y rheini sy'n ymwneud ag adeiladu ac adnewyddu'r fath adeiladau ac i sefydlu Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau sy'n gyfrifol am reoli adeiladu ac am arolygu safonau cynhwyster. Fodd bynnag, mae cyfrifoldeb am yr amrediad o swyddogaethau a nodir uchod yn aros ar wasgar. **Rydym felly'n argymell** bod y llywodraeth yn dwyn ynghyd o dan reoleiddiwr unigol yr holl swyddogaethau yn ymwneud â'r diwydiant adeiladu rydym wedi cyfeirio atynt.

**113.7** At ddiben hyn a'n hargymhellion eraill rydym wedi defnyddio'r ymadrodd "adeilad risg uwch" yn yr ystyr y mae'n cael ei ddefnyddio yn y Ddeddf Diogelwch Adeiladau, hynny yw, adeilad sydd o leiaf 18 metr o ran uchder (neu mae ganddo o leiaf saith llawr) ac mae'n cynnwys o leiaf ddwy uned breswyl. [12] Fodd bynnag, nid dydym yn meddwl bod diffinio adeilad fel "risg uwch" trwy

12 Deddf Diogelwch Adeiladau 2022, adrannau 31 a 65.

gyfeirio at ei uchder yn unig yn foddhaol, gan ei fod yn hanfodol fympwyol. Mwy perthnasol yw natur ei ddefnydd, ac, yn neilltuol, y presenoldeb tebygol o bobl agored i niwed, y byddai gwagio yn achos tân neu argyfwng arall yn debygol o gyflwyno anhawster iddynt. **Rydym felly yn argymell** bod y diffiniad o adeilad risg uwch at ddibenion y Ddeddf Diogelwch Adeiladau yn cael ei adolygu ar frys.

## Y Llywodraeth

113.8 Mae natur wasgarog y cyfrifoldeb dros reoleiddio'r diwydiant adeiladu yn cael ei adlewyrchu ar hyn o bryd yn yr amrediad o adrannau llywodraeth sy'n gyfrifol am faterion sy'n effeithio ar ddiogelwch tân. Pe byddai corff unigol yn gyfrifol am bob agwedd ar faterion rheoleiddio sy'n effeithio ar ddiogelwch tân yn y diwydiant adeiladu, dylai'r corff hwnnw adrodd i Ysgrifennydd Gwladol unigol sy'n atebol i'r Senedd am bob agwedd ar ddiogelwch tân. Dylai hynny wella ansawdd llywodraeth trwy ddarparu amgylchedd gweinyddol lle gall gwybodaeth gael ei rhannu'n gyflymach ac yn fwy effeithiol rhwng timau sy'n gyfrifol am agweddau gwahanol ar y gwaith ac yn hwyluso cyfathrebu rhwng y rheoleiddiwr a'r adran. Dylai hefyd sicrhau bod pwyslais helaethach yn cael ei roi ar sicrhau diogelwch yr amgylchedd adeiledig a bod polisi yn cael ei ddatblygu mewn ffordd gyfannol a chydlynol. **Rydym felly yn argymell** bod y llywodraeth yn dod â chyfrifoldeb dros y swyddogaethau perthynol i ddiogelwch tân sydd ar hyn o bryd yn cael eu harfer gan MHCLG, y Swyddfa Gartref a'r Adran Busnes a Masnach i un adran o dan Ysgrifennydd Gwladol unigol.

## Prif Gynghorwr Adeiladu

113.9 Bydd angen i'r gweinidog allu troi am gyngor at rywun sydd â gwybodaeth gweithio da a phrofiad ymarferol o'r diwydiant adeiladu. **Rydym felly'n argymell** bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn penodi Prif Gynghorwr Adeiladu â chyllideb a staff digonol i ddarparu cyngor ar bob mater sy'n effeithio ar y diwydiant adeiladu, gan gynnwys:

a. monitro pob agwedd ar waith yr adran yn ymwneud â'r Rheoliadau Adeiladau a chyfarwyddyd statudol;

b. darparu cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gais; a

c. dwyn i sylw'r Ysgrifennydd Gwladol unrhyw faterion sy'n effeithio ar y Rheoliadau Adeiladu a chyfarwyddyd statudol sy'n effeithio ar y diwydiant adeiladu yn fwy cyffredinol y dylai'r llywodraeth fod yn ymwybodol ohonynt.

## Deddfwriaeth a chyfarwyddyd

113.10 Nid oes dim byd y gwnaethom ei ddarganfod yng nghwrs ein hymchwiliadau wedi ein harwain i feddwl bod mynegi gofynion cyfreithiol y Rheoliadau Adeiladu o ran gofynion gweithredol ynddo'i hun yn anfoddhaol, ond rydym yn meddwl bod y ffordd y cafodd y cyfarwyddyd statudol ei fynegi yn Nogfen Gymeradwy B yn anfoddhaol mewn nifer o agweddau. Rydym wedi tynnu sylw ym Mhennod 6 at gadw Dosbarth 0 fel safon sy'n llywodraethu perfformiad tân paneli wal allanol ac ym Mhennod 48 at y canlyniadau o fynegi mewn ffurf ymddangosiadol ragnodol yr hyn sydd mewn gwirionedd yn ddim mwy na chyfarwyddyd. Yn bwysicaf oll nid ydym yn meddwl bod Dogfen Gymeradwy B yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i ddylunio adeiladau sy'n ddiogel mewn tân.

113.11 Mae angen i Ddogfen Gymeradwy B gael ei hadolygu fel mater o frys, gan gymryd i ystyriaeth dystiolaeth arbenigol yr Athro Bisby, yr Athro Torero, a Dr Lane, y mae'r cyfan ohoni ar gael yn gyhoeddus a dim ohoni wedi cael ei newid yn arwyddocaol yng nghwrs ein gweithgareddau. Mae'n rhaid iddi wedyn gael ei chadw o dan adolygiad parhaus, ynghyd

â'r Dogfennau Cymeradwy eraill, a'i diwygio'n flynyddol neu'n fuan pryd bynnag y mae datblygiadau mewn deunyddiau neu ddulliau adeiladu yn gwneud hynny'n ddymunol. Dylai gael ei drafftio'n geidwadol i sicrhau, cyn belled â phosibl, y bydd cydymffurfiaeth â hi yn darparu gradd uchel o hyder ar gwblhau'r gwaith y bydd yr adeilad yn cydymffurfio a'r Rheoliadau Adeiladu. **Rydym felly'n argymell** bod y cyfarwyddyd statudol yn gyffredinol, a Dogfen Gymeradwy B yn benodol, yn cael eu hadolygu yn briodol ac y bydd fersiwn ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi cyn gynted â phosibl.

**113.12** Mae ein hymchwiliadau wedi dangos bod lefelau o gymhwysedd yn y diwydiant adeiladu yn isel yn gyffredinol ac erbyn adeg tân Tŵr Grenfell roedd llawer o gontractwyr, cynllunwyr a swyddogion rheoli adeiladau yn trin y cyfarwyddyd statudol megis datganiad diffiniol o'r gofynion cyfreithiol. Mae'n ddealladwy y dylai'r rheini sy'n troi at y cyfarwyddyd am gyngor am sut i gydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu gael eu temptio i'w drin fel pe byddai'n ddiffiniol, ond mae hynny'n berygl y mae angen i'r Ysgrifennydd Gwladol ei gydnabod a gwarchod rhagddo. **Rydym felly'n argymell** bod fersiwn ddiwygiedig o'r cyfarwyddyd yn cynnwys rhybudd eglur ym mhob adran bod y gofynion cyfreithiol yn cael eu cynnwys yn y Rheoliadau Adeiladu ac na fydd cydymffurfio â'r cyfarwyddyd o reidrwydd yn arwain at gydymffurfio â nhw.

**113.13** Nid ydym yn meddwl ei bod yn briodol i ni argymell newidiadau penodol i Ddogfen Gymeradwy B, ac eithrio mewn un agwedd. Fel rydym wedi dangos ym Mhennod 48, mae'r cyfarwyddyd yn mynd ymlaen ar y rhagdybiaeth fod adrannu effeithiol yn golygu bod strategaeth aros yn yr unfan yn ymateb priodol i dân mewn fflat mewn adeilad preswyl uchel iawn. Mae deunyddiau a dulliau adeiladu newydd a'r arfer o orgladio adeiladau presennol yn gwneud bodolaeth o adrannu effeithiol yn rhagdybiaeth amheus ac **rydym yn argymell** ei fod yn cael ei ailystyried pan fydd Dogfen Gymeradwy B yn cael ei hadolygu. Un peth sydd wedi codi'n eglur o'n hymchwiliadau yw er mwyn sicrhau diogelwch preswylwyr, gan gynnwys unrhyw rai â namau corfforol neu feddyliol, mae angen i'r rheini sy'n dylunio adeiladau uchel iawn fod yn ymwybodol o'r berthynas rhwng y gyfradd mae'r tan yn debygol o ledaenu arni trwy'r waliau allanol a'r amser sy'n ofynnol i ymadael â'r adeilad neu'r darnau perthnasol ohono. Bydd strategaeth aros yn yr unfan mewn ymateb i dân adran yn dderbyniol dim ond os oes risg fach iawn o dân yn dianc i mewn i ac yn lledaenu trwy'r wal allanol. Mae cyfrifo'r raddfa debygol o ledaeniad tân a'r amser sy'n ofynnol ar gyfer gwagio, gan gynnwys symud y rheini â namau corfforol neu feddyliol allan, yn faterion i beiriannydd tân cymwys. Nid ydym yn meddwl y byddai o gymorth i ymdrechu i gynnwys yn Nogfen Gymerdawy B awgrym o'r hyn fyddai'n dderbyniol oherwydd bod pob adeilad yn wahanol, ond **rydym yn argymell** bod y cyfarwyddyd yn tynnu sylw at yr angen i wneud cyfrifiad o'r math hwnnw. Mae'n un a ddylai ffurfio rhan hanfodol o unrhyw strategaeth diogelwch tân.

**113.14** Rydym yn meddwl bod angen cymryd ymagwedd newydd at adolygu a diwygio'r Rheoliadau Adeiladu a chyfarwyddyd statudol sy'n cael ei gyrru'n bennaf gan ystyriaethau diogelwch. Mae angen meddyliau ffres. **Rydym felly'n argymell** cyn belled â phosibl, y dylai aelodaeth o gyrff sy'n cynghori ar newidiadau i'r cyfarwyddyd statudol gynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned academaidd yn ogystal â'r rheini â phrofiad ymarferol o'r diwydiant (gan gynnwys perianwyr tân) wedi eu dewis am eu profiad a sgìl a dylai estyn y tu hwnt i'r rheini sydd wedi gwasanaethu ar gyrff tebyg yn y gorffennol.

## Strategaeth diogelwch tân

**113.15** Dylai strategaeth diogelwch tân ddisgrifio ei strwythur a'r systemau amrywiol gwarchod rhag tân mae'n eu cynnwys ac amlinellu sut maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau diogelwch y preswylwyr yn achos tan. Methodd y rheini oedd yn cymryd rhan yn nyluniad

a gweithrediad adnewyddu Tŵr Grenfell â deall yn gywir yr angen am strategaeth diogelwch tân ac felly gwnaethant fethu â sicrhau bod fersiwn derfynol o'r Strategaeth Diogelwch Tân Amlinellol wedi'i chychwyn gan Exova wedi cael ei chwblhau. Caniataodd hynny i'r adeilad fod mewn cyflwr peryglus wrth ei gwblhau. Er mwyn osgoi ailadrodd y gwall hwnnw, rydym yn ystyried bod achos cymhellol dros ofyn bod strategaeth diogelwch tân yn cael ei chynhyrchu fel amod o gael cymeradwyaeth rheolaeth adeiladu ar gyfer adeiladu neu adnewyddu unrhyw adeilad risg uwch ac iddi gael ei hadolygiu a'i chymeradwyo wrth ei gwblhau. **Rydym felly'n argymell** ei fod yn cael ei wneud yn ofyniad statudol fod strategaeth diogelwch tân yn cael ei chynhyrchu gan beiriannydd tân cofrestredig (gweler isod) i'w chyflwyno â cheisiadau rheoli adeiladau (ym Mhorth 2) ar gyfer adeiladu neu adnewyddu unrhyw adeilad risg uwch ac iddi gael ei hadolygu a'i hailgyflwyno wrth ei gwblhau (Porth 3). Mae'n rhaid i'r fath strategaeth ystyried anghenion pobl agored i niwed, gan gynnwys yr amser ychwanegol a all fod yn ofynnol iddynt adael yr adeilad neu gyrraedd man diogelwch o'i fewn ac unrhyw gyfleusterau ychwanegol sy'n angenrheidiol i sicrhau eu diogelwch.

## Profion Perfformiad Tân

113.16 Mae asesu perfformiad tân wal allanol yn gofyn am wybodaeth ddibynadwy am y cynhyrchion a deunyddiau a gynigir i'w defnyddio yn ei adeiladu, sydd yn ei dro yn gofyn bod dulliau addas ar gael ar gyfer profi adwaith i dân. Fel rydym wedi esbonio ym Mhennod 111, nid yw'r dulliau profi graddfa fach y dibynwyd arnynt yn draddodiadol yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen at y diben hwnnw ac mae'r dull profi graddfa fawr (BS 8414) a dosbarthiad yn unol â BR 135 yn brin o feini prawf perfformiad perthnasol ac mae'n darparu swm cyfyngedig o wybodaeth ddefnyddiol.

113.17 Fel mae'n amlwg o'r arbrofion a gynhaliwyd gan yr Athro Bisby a'r Atrho Torero ar gyfer cam 2 o'n hymchwiliadau, mae'r ffactorau sy'n effeithio ar y ffordd mae'r tân yn lledaenu ynddi dros systemau wal allanol sgrîn glaw wedi'u hawyru yn gymhleth ac mae eu deall yn wyddor sy'n esblygu. Mae dyfarniadau greddfol yn anghywir yn aml oherwydd gall newid bach yn y system gael effaith arwyddocaol ar y canlyniad. Mae'n dilyn bod asesu a yw system wal allanol yn gallu cefnogi strategaeth wagio neilltuol yn anodd oherwydd nad yw'r wybodaeth angenrheidiol ar gael bob amser. **Rydym felly'n argymell** y gall camau gael eu cymryd ar y cyd â'r gymuned broffesiynol ac academaidd i ddatblygu dulliau profi newydd fydd yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i'r fath asesiadau gael eu cyflawni'n ddibynadwy.

113.18 Yng ngoleuni tystiolaeth yr Athro Torero rydym yn meddwl y bydd BS 9414 yn annog pobl nad ydynt yn beirianwyr tân hyfforddedig i gredu y gallant asesu'n ddiogel berfformiad system wal allanol arfaethedig trwy allosod o wybodaeth a geir o brofion ar un neu fwy o systemau gwahanol. Am y rhesymau a roddwyd gan yr Athro Torero rydym yn meddwl y dylid ymdrin â BS 9414 â gofal ac **rydym yn argymell** bod y llywodraeth yn egluro na ddylai gael ei ddefnyddio fel amnewid am asesiad gan beiriannydd tân sydd wedi'i gymhwyso'n addas.

## Ardystio cynhyrchion a chyhoeddi data profion

113.19 Mae'n hanfodol fod gan y rheini sy'n gyfrifol am ddylunio adeiladau fynediad at wybodaeth ddibynadwy am y deunyddiau a'r cynhyrchion maen nhw'n dymuno eu defnyddio. Yn eu llenyddiaeth cynhyrchion mae gweithgynhyrchwyr yn gwneud llawer o honiadau am eu cynhyrchion, rhai ohonoynt heb fod o natur amlwg dechnegol ond maen nhw wedi eu bwriadau i roi'r argraff bod cynnyrch neilltuol wedi pasio prawf neilltuol neu mae wedi cael ei ddangos i fod yn addas ar gyfer defnydd neilltuol. Roedd hynny'n un o'r dyfeisiau marchnata a ddefnyddiwyd gan y rheini a weithgynhyrchodd ac a werthodd y paneli cladin sgrîn glaw a'r inswleiddio a ddefnyddiwyd wrth adnewyddu Tŵr Grenfell.

**113.20** Roedd gweithgynhyrchwyr hefyd yn gallu defnyddio deunydd marchnata camarweiniol yn rhannol oherwydd y methodd y cyrff ardystio a ddarparodd sicrwydd i'r farchnad o ansawdd a nodweddion y cynhyrchion â sicrhau bod y datganiadau yn y tystysgrifau y gwnaethant eu dosbarthu yn gywir ac yn seiliedig ar dystiolaeth profion priodol a pherthnasol. Methodd Gwasanaeth Asesu'r Deyrnas Unedig (UKAS), y sefydliad â'r cyfrifoldeb o'u hachredu, â chymhwyso safonau cywir o fonitro a goruchwyliaeth. Mae'r ffaith fod tri gweithgynhyrchydd gwahanol wedi gallu cael tystysgrifau camarweiniol yn ymwneud â'u cynhyrchion yn dystiolaeth o fethiant difrifol y system ac mae'n pwyntio at angen am ymagwedd wahanol at ardystio cynhyrchion adeiladu.

**113.21** Nid ydym yn meddwl y bydd penodi Rheoleiddiwr Cenedlaethol o Gynhyrchion Adeiladu yn datrys y broblem oherwydd y bydd y system yn parhau i ddibynnu ar effeithiolrwydd y cyrff asesu cydymffurfiaeth a throsolwg gyfyngedig UKAS. Mae cyrff asesu cydymffurfiaeth yn darparu gwasanaeth wedi'i gyfuno ag elfen o reoleiddio, ond nid yw'r ddwy swyddogaeth yn eistedd yn hawdd gyda'i gilydd. Gall pwysau i gaffael a chadw cwsmeriaid arwain y fath gyrff yn rhy hawdd at fod yn llai trwyadl yn eu harchwilio o gynhyrchion a deunyddiau a gorfodi eu telerau contract nac y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol o gyrff yn gweithredu er budd cyhoeddus.

**113.22** **Rydym felly'n argymell** y dylai'r rheoleiddiwr adeiladu fod yn gyfrifol am asesu cydymffurfiaeth cynhyrchion adeiladu â gofynion deddfwriaeth, cyfarwyddyd statudol a safonau diwydiant a dosbarthu tystysgrifau fel y bo'n briodol. Dylem ddisgwyl y bydd y fath dystysgrifau'n dod yn flaenllaw yn y farchnad.

**113.23** Yn ein barn ni mae eglurdeb yn ofynnol i osgoi'r bosibilrwydd y bydd y rheini sy'n dibynnu ar dystysgrifau cydymffurfiaeth yn cael eu camarwain. **Rydym felly'n argymell**

a. bod copïau o'r holl ganlyniadau profion sy'n cefnogi unrhyw dystysgrif a gyhoeddir gan y rheoleiddiwr adeiladu yn cael eu cynnwys yn y dystysgrif;

b. bod gofyn i weithgynhyrchwyr ddarparu hanes profi llawn y cynnyrch neu ddeunydd mae'r dystysgrif yn ymwneud â nhw i'r rheoleiddiwr adeiladu ac yn rhoi gwybod i'r rheoleiddiwr am unrhyw amgylchiadau materol a all effeithio ar ei berfformiad; a

c. bod gofyn i weithgynhyrchwyr trwy gyfraith ddarparu ar gais gopïau o holl ganlyniadau'r profion sy'n cefnogi honiadau am berfformiad tân a wneir ar gyfer eu cynhyrchion.

## Peiranwyr tân

**113.24** Mae dylunio adeiladau sy'n ddiogel yn achos tân yn gofyn am sgìl neilltuol. Mae'n sgìl y gellir ei chaffael dim ond trwy addysg a phrofiad arbenigol sy'n haeddu cydnabyddiaeth ffurfiol. Yn anffodus, nid yw'r term "peiriannydd tân" ar hyn o bryd yn dynodi unrhyw gymhwyster ffurfiol ac o ganlyniad mae'n bosibl i unigolyn ymarfer fel peiriannydd tân heb unrhyw gymhwyster ffurfiol. Mae'r dystiolaeth rydym wedi ei chlywed yn awgrymu nad pawb o'r rheini sy'n proffesu i fod yn beirianwyr tân sy'n gallu perfformio'r rôl yn gymwys ac nad yw cymhlethdod y cynnwys yn cael ei ddeall yn dda.

**113.25** Yn yr amgylchiadau hynny, ac yn enwedig o ystyried pwysigrwydd peirianwyr tân mewn sicrhau diogelwch bywyd, rydym yn meddwl y dylai proffesiwn peiriannydd tân gael ei gydnabod yn ffurfiol ac y dylai'r teitl a'r swyddogaeth gael eu gwarchod gan statud. Dros amser byddai hynny'n creu corff o beirianwyr tân cofrestredig sy'n gallu cyfrannu at ddylunio a chyflawni adeiladau diogel ac addysgu'r gweithwyr adeiladu proffesiynol hynny maen nhw'n gweithio gyda nhw mewn strategaethau diogelwch tân effeithiol. **Rydym felly'n argymell**

bod proffesiwn peiriannydd tân yn cael ei gydnabod a'i warchod trwy gyfraith a bod corff annibynnol yn cael ei sefydlu i reoleiddio'r proffesiwn, diffinio'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer aelodaeth, cynnal cofrestr o aelodau a rheoleiddio eu hymddygiad. Er mwyn cyflymu creu corff o beirianwyr tân proffesiynol **rydym hefyd yn argymell** bod y llywodraeth yn cymryd camau brys i gynyddu'r nifer o leoedd ar gyrsiau lefel meistr o ansawdd uchel mewn peirianneg tân gan y rheoleiddiwr proffesiynol.

**113.26** Mae angen i weithwyr adeiladu proffesiynol eraill ac aelodau uwch o'r gwasanaethau tân ac achub gael dealltwriaeth sylfaenol o egwyddorion perianneg tân fel y maen nhw'n gymwys i'r amgylchedd adeiledig Mae'r amgylchiadau ynghylch tân Tŵr Grenfell yn dangos y gallai cyfraniad gan beiriannydd tân fod wedi atal y drychineb trwy dynnu sylw'r cleient a'r prif gontractwr at y peryglon o ddefnyddio paneli alwminiwm cyfansawdd â chreiddiau polyethylen heb eu haddasu ac inswleiddio llosgadwy yn wal allanol yr adeilad. Maen nhw hefyd yn dangos bod methiant Rydon a'r TMO i ddeall natur a phwysigrwydd y dadansoddi a chyngor y dylai Exova fod wedi eu darparu wedi cyfrannu at eu methiant i'w gael. Gallai datganiad awdurdodol o'r sgiliau y gellir disgwyl i beiriannydd tân eu cyflwyno gynorthwyo'r corff rheoleiddiol a byddai'n gwella cymhwysedd gweithwyr adeiladu proffesiynol eraill a'r gwasanaethau tân ac achub trwy eu galluogi i ddeall yn well y cyfraniad y gall peirianwyr tân ei wneud i adeiladu adeilad diogel. Byddai hefyd yn hyrwyddo cyfathrebu effeithiol rhyngddynt. Byddai angen i'r fath ddatganiad dynnu ar a myfyrio ar brofiad peirianwyr tân gweithredol a'r rheini yn y byd academaidd i sicrhau ei fod yn wrthrychol ac yn adlewyrchu gofynion gwyddonol a deallusol y rôl yn gywir.

**113.27** Dylai datblygu a chynnal datganiad o sgiliau proffesiynol yn y pen draw fod yn gyfrifoldeb y corff sy'n rheoleiddio'r proffesiwn, ond wrth ddisgwyl sefydlu corff o'r fath **rydym yn argymell** bod y llywodraeth yn cynnull grŵp o beirianwyr tân ymarferol ac academaidd a gweithwyr proffesiynol eraill o'r fath fel y gwêl yn addas i gynhyrchu datganiad awdurdodol am yr wybodaeth a'r sgiliau i'w disgwyl gan beiriannydd tan cymwys. Byddai datganiad o'r fath hefyd yn galluogi eraill yn y diwydiant adeiladu i ddeall natur a phwysigrwydd gwaith peiriannydd tân yn well, Rydym yn meddwl y byddai o fudd i'r rheini sy'n cyflawni'r gwaith hwn i ystyried adroddiadau Canolfan Warren, y cyfeiriwn atynt ym Mhennod 112.

**113.28** **Rydym hefyd yn argymell** bod y llywodraeth, gan gydweithio â diwydiant a chyrff proffesiynol, yn annog datblygu cyrsiau yn yr egwyddorion o beirianneg tân ar gyfer gweithwyr adeiladu proffesiynol ac aelodau o'r gwasanaethau tân ac achub fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus.

## Penseiri

**113.29** Yn draddodiadol, mae rôl y pensaer wedi bod yn sylfaenol i unrhyw brosiect adeiladu o faint sylweddol. Yn anffodus, syrthiodd gwaith Studio E ar adnewyddu Tŵr Grenfell yn sylweddol islaw'r safon i'w disgwyl yn rhesymol mewn nifer o ffyrdd arwyddocaol, yn enwedig, o ran methu ag ymarfer gofal cywir mewn perthynas â'r dewis o inswleiddio a phaneli sgrîn glaw, Mae'r dystiolaeth, nid y lleiaf y ffaith fod deunyddiau tebyg wedi cael eu canfod ers hynny ar gannoedd o adeiladau uchel iawn eraill, yn awgrymu y gall fod methiant eang ymhlith y proffesiwn i ymchwilio'n gywir neu ddeall natur y deunyddiau sy'n cael eu dewis at y diben hwnnw.

**113.30** Rydym yn cydnabod bod y Bwrdd Cofrestru penseiri a Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain wedi cymryd camau ers tan Tŵr Grenfell i wella addysg a hyfforddiant penseiri. **Rydym yn argymell** y dylent adolygu'r newidiadau a wnaed eisoes i sicrhau eu bod yn ddigonol yng ngoleuni ein canfyddiadau.

**113.31** **Rydym hefyd yn argymell** ei fod yn cael ei wneud yn ofyniad statudol fod cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu mewn perthynas ag adeiladu neu adnewyddu adeilad risg uwch (Porth 2) yn cael ei gefnogi gan ddatganiad gan uwch reolwr y prif ddylunydd o dan Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 bod pob cam rhesymol wedi cael eu cymryd i sicrhau ar gwblhau y bydd yr adeiliad fel y cafodd ei ddylunio mor ddiogel â sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Adeiladu.

## Contractwyr

**113.32** Mae'r ffurf dylunio ac adeiladu ar gontract, sy’n cael ei ddefnyddio'n eang iawn yn awr, yn gwneud y prif gontractwr yn gyfrifol am yr amrediad cyfan o weithgareddau yn ymwneud â'r gwaith, er ei fod yn cyflogi is-gontractwyr yn ddieithriad i gyflawni agweddau gwahanol arno. Rydym wedi beirniadu Rydon am fethiannau amrywiol yn ei drefniadaeth o adnewyddu Tŵr Grenfell. Maen nhw'n cynnwys methiant i egluro pa gontractwr oedd yn gyfrifol am agweddau neilltuol ar y dyluniad a methiant i gymryd diddordeb byw mewn diogelwch tân. Nid ni yw'r cyntaf i ddod i'r casgliad fod angen i'r diwydiant adeiladu yn ei gyfanrwydd ddod yn fwy cymwys yn dechnegol ac yn llai bodlon i aberthu ansawdd i gyflymder a chost.

**113.33** Rydym yn meddwl mai un ffordd i ddileu diffygion o'r mathau rydym wedi eu nodi ac i wella effeithlonrwydd contractwyr fyddai cyflwyno system drwyddedu ar gyfer y rheini sy'n dymuno ymgymryd â gwaith ar adeiladau risg uwch. Byddai hynny'n sicrhau bod y rheini sy'n gweithio ar yr adeiladau mwyaf sensitif yn gymwys trwy brofiad a threfnu i wneud hynny a dylai'r fath system arwain at gynnydd cyffredinol mewn cymhwysedd ymhlith contractwyr. Rydym hefyd yn meddwl, er mwyn sicrhau y rhoddir y pwysigrwydd i ddiogelwch tân y mae'n ei haeddu, y dylai aelod uwch o sefydliad y contractwr fod yn gyfrifol yn bersonol am gymryd pob cam rhesymol i sicrhau wrth gwblhau'r gwaith bod yr adeilad mor ddiogel ag y dylai fod. **Rydym felly'n argymell** bod cynllun trwyddedu wedi'i weithredu gan reoleiddiwr yr adeiladu yn cael ei gyflwyno ar gyfer prif gontractwyr sy'n dymuno ymgymryd ag adeiladu neu adnewyddu adeiladau risg uwch, a'i fod yn ofyniad cyfreithiol fod unrhyw gais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu ar gyfer adeiladu neu adnewyddu adeilad risg uwch (Porth 2) yn cael ei gefnogi gan ymgymeriad personol gan gyfarwyddwr neu uwch reolwr y prif gontractwr i gymryd pob gofal rhesymol i sicrhau wrth gwblhau a chyflwyno, bod yr adeilad yn ddiogel fel mae'n ofynnol gan y Rheoliadau Adeiladu.

## Cleientiaid

**113.34** Mae'r digwyddiadau ynghylch adnewyddu Twr Grenfell yn awgrymu ar yr adeg honno nad oedd y rheini a gomisiynodd waith adeiladu yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldeb ar gyfer cydymffurfio â darpariaethau'r Rheoliadau Adeiladu, yn enwedig os oedd cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu wedi cael ei wneud gan ymgynghorydd ar eu rhan. Rydym felly yn croesawu cyflwyno'r rheoliadau a wneir o dan Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 o ofyniad am ddatganiad cydymffurfiaeth Rheoliadau Adeiladu, wedi ei wneud neu ei gymeradwyo gan y cleient, i'w ddarparu ar adeg y cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu. (Porth 2) Yng ngoleuni'r gofyniad hwnnw nid ydym yn meddwl bod angen unrhyw weithredu ychwanegol mewn perthynas â'r cleientiaid ar hyn o bryd.

## Rheolaeth Adeiladu

**113.35** Mae'r dystiolaeth yn dangos yn y cyfnod yn arwain at dan Tŵr Grenfell yr ystyriai llawer o'r rheini oedd yn cymryd rhan mewn prosiectau adeiladu mawr, gan gynnwys cleientiaid, contracwyr a hyd yn oed penseiri, rheolaeth adeiladu yn bennaf fel ffynhonnell o gyngor a chymorth. Cafodd ei ddisgrifio hyd yn oed fel estyniad o'r tîm dylunio. Mewn llawer o achosion dyna sut y gwelodd rheolaeth adeiladu ei rôl. Roedd hynny'n gamddealltwriaeth ddifrifol, ond cafodd ei meithrin gan gyrff rheolaeth adeiladu eu hunain, yr oedd yn well ganddynt gydweithredu ag ymgeiswyr i alluogi cynigion i gael eu cymeradwyo yn hytrach na gorfodi'r Rheoliadau Adeiladu yn gadarn. Yn ein barn ni, mae'n rhaid i hynny newid.

**113.36** Mae'r llywodraeth wedi cymryd camau i wella'r rheoleiddio o reoli adeiladu a chymhwyster y rheini sy'n ystyried ceisiadau am gymeradwyaeth. Rydym yn disgwyl i'r rheoleiddiwr adeiladu barhau â'r trefniadau newydd hyn, sydd wedi'u bwriadu i gyflwyno hinsawdd hollol newydd y mae ymgeiswyr am gymeradwyaeth a swyddogion rheolaeth adeiladu yn deall bod swyddogaeth rheolaeth adeiladu yn rheoleiddiol ei natur.

**113.37** Un o achosion y berthynas amhriodol rydym wedi cyfeirio ati oedd y cyflwyniad i mewn i'r system o fuddiannau masnachol. Roedd gan arolygwyr cymeradwy fudd masnachol mewn caffael a chadw cwsmeriaid oedd yn gwrthdaro â pherfformiad eu rôl fel gwarcheidwaid y budd cyhoeddus. Cyflwynodd cystadleuaeth rhwng arolygwyr cymeradwy ac adrannau rheolaeth adeiladu awdurdod lleol wrthdaro buddiannau tebyg yn effeithio arnynt. Fel y mae pethau'n sefyll bydd y gwrthdaro isorweddol hwnnw yn parhau i fodoli a bydd yn parhau i fygwth cyfanrwydd y system. **Rydym felly'n amrgymell** bod y llywodraeth yn penodi panel annibynnol i ystyried a yw er budd y cyhoedd i swyddogaethau rheolaeth adeiladu gael eu perfformio gan y rheini sydd â budd masnachol yn y broses.

**113.38** Mae'r diffygion rydym wedi eu hadnabod mewn rheolaeth adeiladu awdurdodau lleol yn awgrymu er budd proffesiynoldeb a chysondeb gwasanaeth pob swyddogaeth rheolaeth adeiladu, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu perfformio gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd, y dylent gael eu hymarfer yn genedlaethol. Felly, **rydym yn argymell** bod yr un panel yn ystyried y dylai pob swyddogaeth rheolaeth adeiladu gael eu perfformio gan awdurdod cenedlaethol.

## Llyfrgell adeiladu

**113.39** Byddai'r rheini sy'n dylunio adeiladau, yn enwedig adeiladau risg uwch a chymhleth, yn elwa o gael mynediad at gorff o wybodaeth, megis data o brofion ar gynhyrchion a deunyddiau, adroddiadau ar danau difrifol a phapurau academaidd. Ym mhennod 112 rydym wedi cyfeirio at y Llyfrgell Deunyddiau Cladin a sefydlwyd gan Brifysgol Queensland, a allai ffurfio sail ffynhonnell werthfawr o wybodaeth i ddylunwyr adeiladau yn gyffredinol. **Rydym yn argymell** bod y rheoleiddiwr adeiladu yn noddi datblygu llyfrgell debyg, efallai fel rhan o briosiect ar y cyd â Phrifysgol Queensland, i ddarparu adnodd parhaol i ddylunwyr.

## Ymateb i argymhellion

**113.40** Mae ein hymchwiliadau wedi datgelu y cafodd rhai argymhellion pwysig yn effeithio ar ddiogelwch tân eu hanwybyddu gan y llywodraeth yn y blynyddoedd yn arwain at dân Tŵr Grenfell. Ni chafodd argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Dethol yn 1999 eu gweithredu ac roedd ymateb yr adran i'r argymhellion a wnaed gan grwner Lakanal House yn annigonol. Nid oedd gan yr adran system ar gyfer cofnodi argymhellion a wnaed gan gyrff cyhoeddus nac i olrhain ei hymateb iddynt. Roedd hynny'n amlwg yn anfoddhaol. **Rydym yn argymell** ei fod yn cael ei wneud yn ofyniad cyfreithiol i'r llywodraeth gynnal cofnod cyhoeddus hygyrch o argymhellion a wneir gan bwyllgorau dethol, crwneriaid ac ymchwiliadau cyhoeddus ynghyd â disgrifiad o'r camau a gymerir mewn ymateb. Os yw'r llywodraeth yn penderfynu peidio â derbyn argymhelliad, dylai gofnodi ei rhesymau am wneud hynny. Dylai craffu ar ei gweithredoedd fod yn fater i'r Senedd, y dylai fod yn ofynnol i adrodd yn flynyddol iddi.

## Aseswyr risg tân

**113.41** Fel rydym wedii'i nodi ym Mhennod 12, mae pryder wedi cael ei fynegi ers llawer o flynyddoedd am gymhwysedd rhai o'r rheini sy'n cynnig eu gwasanaethau fel aseswyr risg tân masnachol ac absenoldeb unrhyw gynllun o reoleiddio i sicrhau bod unigolion cyfrifol o dan y Gorchymyn Diogelwch Tân yn gallu cael hyder yn sgìl a phrofiad y rheini maen nhw'n eu cyfarwyddo i gyflawni asesiadau risg tân ar eu rhan. **Rydym felly'n argymell** bod y llywodraeth yn sefydlu system o achredu gorfodol i ardystio cymhwysedd aseswyr risg tân trwy osod safonau ar gyfer cymhwysedd a datblygiad proffesiynol parhaus a'r fath fesurau eraill fel y gellir eu hystyried yn angenrheidiol neu'n ddymunol. Rydym yn meddwl ei bod yn angenrheidiol i system achredu fod yn orfodol er mwyn sicrhau cymhwysedd pob un o'r rheini sy'n cynnig eu gwasanaethau fel aseswyr risg tân.

## Switsys rheoli tân mewn lifftiau

**113.42** Mae gan bob lifft modern switsys rheoli tân wedi eu gosod sydd wedi'u dylunio i gael eu gweithredu gan allweddi gollwng i alluogi'r gwasanaethau tân ac achub i gymryd rheolaeth arnynt yn achos tân. Cawsom ein synnu i glywed ar adeg tân Tŵr Grenfell bod amrywiant arwyddcaol ym mesuriadau'r allweddi gollwng a oedd ar gael gan gyflenwyr masnachol, nid pob un ohonynt oedd yn gydnaws â phob swits rheoli tân. Cawsom ein synnu hefyd i ddysgu, er bod allweddi gollwng at ddefnydd ymladdwyr tân yn cael eu darparu gan wasanaethau tân ac achub, mae ymladdwyr tân yn cael eu hallweddi gollwng eu hunain o amrywiaeth o ffynonellau. O ganlyniad, mae'n ymddangos ei bod i raddau helaeth wedi bod yn fater o ddewis a oedd yr allwedd a gludwyd gan yr ymladdwr tân cyntaf a geisodd gymryd rheolaeth ar lifft yn gallu gweithredu'r swits. Mae hyn yn amlwg yn annerbyniol a gall arwain at anafusion dianghenraid, fel y gwnaeth yn Nhŵr Grenfell.

**113.43** Rydym yn deall ers i'r broblem ddod i'r amlwg bod LFB wedi cymryd camau i sicrhau mai allweddi gollwng o batrwm cymeradwy yn unig sy'n cael eu cludo gan ei hymladdwyr tân. Nid yw'r dystiolaeth yn ein galluogi i asesu ag unrhyw hyder a oes problemau tebyg wedi cael eu profi gan wasanaethau tân ac achub eraill ac, os felly, pa gamau maen nhw wedi eu cymryd mewn ymateb. Felly, nid ydym mewn sefyllfa i benderfynu a oes gofyn am safoni helaethach o switsys rheoli tân. **Rydym felly'n argymell** bod y llywodraeth yn ceisio cyngor brys gan y Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau a Chyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân ar natur a graddfa'r broblem a'r ymateb pridodol iddi.

### Falfiau ynysu piblinell

**113.44** Mae falfiau ynysu piblinell yn rhan hanfodol o'r rhwydwaith dosbarthu nwy oherwydd eu bod wedi'u bwriadu i alluogi'r cyflenwad o nwy i gael ei gau i ffwrdd yn gyflym mewn argyfwng. Ar adeg y tân yn Nhŵr Grenfell ni allai'r falfiau gael eu gweithredu oherwydd eu bod wedi cael eu gorchuddio yng nghwrs tirlunio caled. Roedd tystiolaeth ei bod yn broblem gyffredin yn y diwydiant i falfiau ynysu piblinell gael eu colli yn y ffordd honno. Yn ein barn ni mae hynny'n cyflwyno risg annerbyniol i iechyd a diogelwch a gallai gael canlyniadau arwyddocaol. **Rydym felly'n argymell** ei bod yn ofynnol i bob trawsgludydd nwy trwy gyfraith wirio hygyrchedd pob falf o'r fath ar ei system o leiaf unwaith bob tair blynedd ac i adrodd canlyniadau'r archwiliad hwnnw i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fel rhan o'i adolygiad achos diogelwch nwy.

### Pibellwaith sy'n heneiddio

**113.45** Tynnodd un o'n tystion arbenigol, Mr Rodney Hancox, ein sylw at y perygl a gyflwynir gan y ffaith fod y pibellwaith nwy mewnol mewn rhai adeiladau hŷn heb lawes lle mae'n mynd trwy waliau a lloriau, fel y mae'n ofynnol yn awr gan y Rheoliadau Diogelwch Nwy 1972. Mae e'n ystyried y dylai ymagwedd fwy weithredol at amnewid gael ei chymryd i osgoi gollyngiad difrifol â chanlyniadau catastroffig posibl.[13] Er nad ydym mewn sefyllfa i wneud argymhelliad ffurfiol i'r diben hwnnw, rydym yn meddwl y dylai'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a chyrff perthnasol eraill roi ystyriaeth ofalus i'w dystiolaeth.

## Darparwyr tai cymdeithasol

**113.46** Yn Rhannau 4 a 5 o'r adroddiad rydym wedi trafod y TMO, ei berthynas â'i breswylwyr a'i reolaeth ar ddiogelwch tân yn Nhŵr Grenfell. Rydym yn gwneud nifer o feirniadaethau o'r ffordd y cyflawnodd ei gyfrifoldebau, gan gynnwys mewn perthynas ag ymdrin â chwynion, gwella diffygion a gafodd eu nodi mewn asesiadau risg tân, gosod a chynnal systemau diogelwch tân ac archwilio a chynnal a chadw drysau tân fel mater o drefn. Dylai eraill sy'n gyfrifol am reoli tai cymdeithasol roi ystyriaeth ofalus iddynt a gweithredu'n briodol.

**113.47** Mewn amgylchiadau eraill byddai diffygion o'r mathau hynny wedi ein harwain at wneud nifer o argymhellion wedi'u cyfeirio at sicrhau eu bod yn cael eu cywiro a ddim yn cael eu hailadrodd, Fodd bynnag, ers y tân mae'r Senedd wedi dod â'r ddeddf Tai Cymdeithasol (Rheoleddio) 2023 i rym, sy’n galluogi'r Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol i chwarae rôl fwy weithredol o ran gosod safonau priodol a sicrhau eu bod yn cael eu diwallu. Mae gan y rheoleiddiwr hefyd y pŵer i osod safonau ar gymhwysedd ac ymddygiad y rheini sy'n cymryd rhan yn y ddarpariaeth o wasanaethau yn ymwneud â rheoli tai cymdeithasol ac i ofyn i ddarparwyr tai cymdeithasol drefnu bod gwybodaeth ar gael i denantiaid yn ogystal ag i'r rheoleiddiwr. Mae'r Ddeddf hefyd yn gwneud diogelwch yn flaenoriaeth ac mae'n gosod dyletswydd ar landlordiaid i ymchwilio a gwella o fewn amser penodedig o gael adroddiad am ddiffygion a all effeithio ar iechyd yn andwyol.

**113.48** Yn yr amgylchiadau hynny, nid ydym yn ystyried ei bod yn angenrheidiol i wneud unrhyw argymhellion ychwanegol mewn perthynas â'r materion rydym wedi eu darganfod.

[13] Gweler ei adroddiadau yn {RHX00000012/220} paragraffau 468-469, {RHX00000020/2-17} paragraffau 1-45 a'i dystiolaeth lafar yn Hancox {Diwrnod161/181-204}.

## Brigâd Dân Llundain

**113.49** Mae ein beriniadaethau o Frigâd Dân Llundain wedi cael eu cyfeirio'n bennaf at ei methiant i integreiddio'r ystafell reoli i mewn i'r sefydliad yn effeithiol, ei methiant i sicrhau bod hyfforddiant digonol yn cael ei ddarparu i staff ystafell reoli wrth ymdrin â galwadau cyfarwyddyd goroesi tân a'i methiant i weithredu gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau blaenorol. Mewn un ffordd neu'r llall mae'r rheini oll yn feirniadaethau o'r sefydliad a rheolaeth y frigâd, sydd ag angen yn ein barn ni i ddod yn fwy llyfn ac yn llai biwrocrataidd.

**113.50** Er mai'r LFB yw gwasanaeth tân ac achub mwyaf y wlad ac mae'n ddarostyngedig i amrediad o ofynion nad ydynt yn cael eu gosod ar wasanaethau tebyg, mae wedi tueddu i fabwysiadu ymagwedd ynysig ac i fod yn gyndyn i ddysgu oddi wrth eraill. Heb amheuaeth gallai rhai o'r beirniadaethau rydym wedi eu gwneud o'r LFB gael eu gwneud am wasanaethau tân ac achub eraill, ond mewn unrhyw achos rydym yn meddwl bod cwmpas i'r holl wasanaethau tân ac achub ddysgu o brofiad ei gilydd ac felly i hyrwyddo ymarfer gorau yn gyffredinol, naill ai mewn perthynas â recrwitio, hyfforddiant, trefniadaeth neu reoli.

### Coleg Tân ac Achub

**113.51** Er bod y Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol yn darparu fforwm ar gyfer trafodaethau a ffurfio polisi, nid oes ar hyn o bryd gorff canolog sydd wedi'i arfogi i ddarparu addysg a hyfforddiant yn gyffredinol i safonau cenedlaethol cymeradwy. Rydym yn croesawu uchelgais y llywodraeth i greu Coleg Tân ac Achub a fynegir yn y papur gwyn *Diwygio ein Gwasanaeth Tân ac Achub*[14] ac **rydym felly'n argymell** bod y llywodraeth yn sefydlu'r fath goleg ar unwaith ag adnoddau digonol i ddarparu'r gwasanaethau canlynol yn genedlaethol:

a. hyfforddiant ymarferol ar bob lefel yn atodol i hwnnw sy'n cael ei ddarparu gan wasanaethau tân ac achub unigol;

b. addysg ar ffurf darlithiau a seminarau ar agweddau gwahanol o waith y gwasanaethau tân ac achub er mwyn rhannu profiad a hyrwyddo ymarfer da;

c. ymchwilio i faterion a all effeithio ar waith y gwasanaethau tân ac achub, gan gynnwys tanau mawr;

d. datblygu cyfarpar, polisïau a gweithdrefnau sy'n addas ar gyfer sicrhau effeithiolrwydd gwasanaethau tân ac achub yn genedlaethol a diogelwch ymladdwyr tân a'r cyhoedd;

e. gosod a chynnal safonau cenedlaethol o gymhwysedd rheoliadol ar gyfer uwch reolwyr, gan gynnwys rheolwyr ystefell reoli, a darparu hyfforddiant rheoli ar gyfer, ac asesu rheolaidd o, rengoedd uwch trwy gyfeirio at y fath safonau.

**113.52** Mae cyfansoddiad y Coleg Tân ac Achub yn fater i'r llywodraeth mewn yngynghoriad â'r Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol a chyrff eraill sydd â buddiant, ond gallai gael ei sefydlu fel cwmni nid-er-elw, yn annibynnol o'r llywodraeth, â bwrdd cyfarwyddwyr wedi'i dynnu o amrediad o gefndiroedd, a chyfran sylweddol ohonynt yn Brif Swyddogion Tân yn gwasanaethu ar hyn o bryd neu'n uwch swyddogion â phrofiad sylweddol o ymladd tân. Byddai'r bwrdd yn gyfrifol am reolaeth a gweithrediadau cyffredinol y coleg.

[14] CP 670

113.53 Er mai mater i'r llywodraeth yw penderfynu sut y dylai'r coleg gael ei ymgorffori, **rydym yn argymell** y dylai gael staff parhaol o faint digonol i reoli ei weithrediadau a datblygu ei swyddogaethau mewn ymateb i ofynion y gwasanaethau tân ac achub yn genedlaethol a gofynion y bwrdd. Bydd angen mynediad ar y coleg i gyfleusterau parhaol, gan gynnwys cyfleusterau ar gyfer hyfforddiant ac addysg ymarferol. Rydym yn rhagweld y bydd llawer o'r hyfforddiant ac addysg yn cael ei gyflawni a'i arwain gan ymladdwyr tân o brofiad addas wedi'u tynnu fel mae'r achlysur yn gofyn o wasanaethau tân ac achub o gwmpas y wlad.

## Yr ystafell reoli

113.54 Dylai'r ystafell reoli fod wrth galon unrhyw wasanaeth tân ac achub a dylai, felly, gael ei chydnabod fel rhan allweddol o'r sefydliad ac wedi'i hintegreiddio'n llawn i mewn iddo. Mae'n rhaid i'w staff gael eu hyfforddi i ymdrin â pha ofynion bynnag sy'n rhesymol ragweladwy.

113.55 Roedd y gofynion a osodwyd ar ystafell reoli LFB gan dân Tŵr Grenfell yn fawr iawn, ond hyd yn oed felly, ni wnaeth ei pherfformiad ateb disgwyliadau rhesymol. Roedd hynny'n bennaf yn ganlyniad hyfforddiant annigonol a methiant i gyflawni ymarferion rheolaidd, sy'n ganlyniad rheoaeth wael ei hun. Gellid disgwyl i sefydlu Coleg Tân ac Achub greu gwelliannau yn yr holl feysydd hynny trwy osod safonau ar gyfer hyfforddiant, trwy hyfforddi rhengoedd uwch i berfformio rolau rheoli yn effeithiol a thrwy rannu ymarfer gorau. Yn y cyfamser, **rydym yn argymell** bod Arolygiaeth Ei Fawrhydi o Wasanaethau Cwnstabliaeth a Thân ac Achub (“yr Arolygiaeth”) yn arolygu'r LFB cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl i asesu ac adrodd ar:

a. y graddau y mae'r ystafell reoli wedi'i hintegreiddio yn awr i mewn i'r sefydliad;

b. Effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer nodi anghenion hyfforddiant staff ystafell reoli, gan gyflawni hyfforddiant effeithiol a chofnodi ei ganlyniadau;

c. effeithiolrwydd yr ystafell reoli yn gyffredinol;

d. gallu'r ystafell reoli i ymdrin â nifer fawr o geisiadau cydamserol am gyngor a chymorth gan bobl a effeithir yn uniongyrchol gan danau neu argyfyngau eraill; ac

e. ansawdd ac effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer cyfathrebu rhwng yr ystafell reoli a phennaeth y digwyddiad.

## Penaethiaid digwyddiadau

113.56 Ym Mhennod 72 roeddem yn feirniadol o drefniadau'r LFB yn syth cyn tân Twr Grenfell am asesu cymhwysedd y rheini y disgwylid iddynt weithredu fel penaethiaid digwyddiadau, yn enwedig yn y camau cynnar o'r ymateb i dân mewn adeilad preswyl uchel iawn. Mae camau wedi cael eu cymryd eisoes i ymateb i'r beirniadaethau a wnaed gan y cadeirydd yn ei adroddiad Cam 1, ond er mwyn rhoi sicrwydd i'r rheini sy'n byw yn Llundain **rydym yn argymell** cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl bod yr arolygiaeth yn arolygu'r LFB i archwilio ac adrodd ar y trefniadau sydd ganddi mewn grym ar gyfer asesu hyfforddiant penaethiaid digwyddiadau ar bob lefel a'u cymhwysedd parhaol, naill ai trwy broses ailddilysu neu fel arall.

## Cynllunio gweithrediadol

113.57 Yn y blynyddoed cyn tân Tŵr Grenfell methodd yr LFB yn gyson â gweithredu system effeithiol ar gyfer casglu, storio a dosbarthu gwybodaeth risg weithrediadol, yn enwedig mewn perthynas ag adeiladau risg uchel, preswyl uchel iawn. **Rydym felly'n argymell** cyn

gynted ag sy'n rhesymol ymarferol bod yr arolygiaeth yn arolygu'r LFB i archwilio ac adrodd ar ei threfniadau ar gyfer casglu, storio a dosbarthu gwybodaeth yn unol ag adran 7(2)(d) y Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, ac yn neilltuol ei threfniadau ar gyfer nodi adeiladau preswyl risg uchel a chasglu, storio a dosbarthu gwybodaeth yn ymwneud â nhw.

## Gweithredu newid

**113.58** Cymerodd yr LFB gamau i archwilio digwyddiadau, casglu gwybodaeth berthnasol, sefydlu byrddau a phwyllgorau i'w threulio a chynhyrchu newidiadau priodol i ymarferion gwaith. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y broses yn rhy fiwrocrataidd a thanseiliodd y diben yr oedd wedi cael ei sefydlu ar ei gyfer. O ganlyniad, cafodd rhy ychydig o'r wybodaeth ar gael ei drosi'n ganlyniadau ymarferol. **Rydym felly'n argymell** bod yr LFB yn sefydlu trefniadau sefydlog effeithiol ar gyfer casglu, ystyried a gweithredu gwersi yn effeithiol o ddigwyddiadau, cwestiau ac ymchwiliadau blaenorol. Dylai'r trefniadau hynny fod mor syml â phosibl, yn hyblyg ac o fath a fydd yn sicrhau bod unrhyw neweidiadau priodol mewn ymarfer neu weithdrefn yn cael eu gweithredu'n gyflym.

## Cyfathrebu

**113.59** Rydym wedi esbonio ym Mhennod 80 pam mae cyfathrebu trwy radio yn gynhenid debygol o gael ei effeithio'n andwyol mewn amgylcheddau penodol, gan gynnwys adeiladau tal wedi'u hadeiladau yn bennaf o ddeunyddiau dwys neu adlewyrchol megis carreg, concrit, bric a dur. Mae'n amlwg, fodd bynnag, fod y defnydd o gyfarpar radio cynhenid ddiogel pŵer isel yn gwaethygu'r broblem oherwydd ei amrediad trosglwyddo mwy cyfyngedig. Mewn llawer o sefyllfaoedd ymladd tân mae'r perygl o wreichionyn o radio yn tanio nwyon fflamadwy yn isel iawn. Mae'r tân yn Nhŵr Grenfell yn un enghraifft. Rydym yn deall bod radios cynhenid ddiogel sy'n gallu gweithredu ar bŵer uwch ar gael yn awr. **Rydym felly'n argymell** bod gwasanaethau tân ac achub sy'n parhau i ddefnyddio radios pŵer isel cynhenid ddiogel fel rhan o gyfarpar anadlu yn ystyried eu cadw dim ond ar gyfer sefyllfaoedd mae risg wirioneddol ynddynt o danio nwyon fflamadwy a defnyddio radio o bŵer uchel yn gyffredinol, yn enwedig mewn adeiladau uchel iawn.

**113.60** Mae tystiolaeth gref yn gyffredinol fod radios digidol yn fwy effeithiol na radios analog. **Rydym felly'n argymell** bod pob gwasanaeth tân ac achub yn rhoi ystyriaeth i ddarparu radios digidol i'r holl ymladdwyr tân.

**113.61** Gan fod cyfathrebiadau radio yn gynhenid annibynadwy mewn amgylcheddau penodol, **rydym yn argymell** bod ymladdwyr tân yn cael eu hyfforddi i ymateb yn briodol i golli'r cyfathrebiadau ac i ddeall sut i'w hadfer.

## Dŵr

**113.62** Ar noson tân Tŵr Grenfell nid oedd ymladdwyr tân yn gallu gwahaniaethu rhwng mathau gwahanol o hydrant. Mae hynny'n awgrym eglur o angen am hyfforddiant gwell ac **rydym felly'n argymell** bod hyfforddiant sylfaenol ar strwythur a gweithrediad y system gyflenwi dŵr, gan gynnwys y gwahanol fathau o hydrantau sy'n cael eu defnyddio a'u swyddogaethau, yn cael eu rhoi i'r holl ymladdwyr tân. Dylai hyfforddiant gael ei roi hefyd ar fesurau effeithiol i gynyddu llif a phwysau dŵr pan fydd angen.

**113.63** Gwnaeth tân Tŵr Grenfell ofynion anarferol ar y cyflenwad dŵr, ond gallai tanau mawr eraill wneud gofynion tebyg yn y dyfodol. Os yw'n dod yn angenrheidiol i geisio cymorth yr ymgymerwr dŵr statudol i gynyddu cyfaint neu bwysau'r cyflenwad, dylai'r gwasanaeth tân ac achub allu cyfathrebu ag ef yn gyflym ac yn eglur. **Rydym felly'n argymell** bod pob

gwasanaeth tân ac achub yn sefydlu protocol cytunedig ac yn ei adolygu o dro i dro â'r ymgymerwyr dŵr statudol yn eu hardaloedd i alluogi cyfathrebu effeithiol rhyngddynt mewn perthynas â'r cyflenwad dŵr at ddibenion ymladd tân.

**113.64** Ym mharagraff 81.23 o Bennod 81 fe wnaethom ystyried Safon Brydeinig 750:2002 yn ymwneud â chyfernod llif hydrantau tân gan nodi nad yw'r safon yn datgan a yw'r ffigur a ddatganwyd ym mharagraff 10.2 yn ymwneud â hydrant unigol wedi'i brofi o dan amodau ffatri neu i hydrant a osodwyd yn y pibellwaith sy'n angenrheidiol i'w gysylltu â'r rhwydwaith dŵr. Gallai unrhyw ddryswch gael ei gywiro gan welliant bach i'r safon. **Rydym felly'n argymell** bod y Sefydliad Safonau Prydeinig yn diwygio BS 750 i gynnwys disgrifiad o'r amgylchiadau y mae'r cyfernod llif y mae'n cyfeirio ato ym mharagraff 10.2 i fod i gael ei fesur o danynt.

### Adleoli ymladdwyr tân

**113.65** Mae'n rhaid i sut i adleoli'r ymladdwyr tân sydd ar gael fod yn gyfrifoldeb pennaeth y digwyddiad, sydd ei hun yn gallu dyfarnu'r ffordd orau i wneud defnydd o'r adnoddau sydd ar gael. Rydym hefyd yn cydnabod bod rhaid i ymladdwyr tân ymarfer disgresiwn o ran sut i gyflawni eu cyfarwyddiadau orau. Fodd bynnag, bydd unrhyw un sy'n darllen Rhan 9 yr adroddiad yn cael ei daro gan y nifer o weithiau y methodd criwiau a gafodd eu hanfon i loriau uchaf y tŵr mewn ymateb i alwadau am gymorth â chyrraedd eu cyrchfannau oherwydd iddynt benderfynu helpu pobl y gwnaethant gyfarfod â nhw ar y grisiau ar eu ffordd i fyny. Nid ydym yn gallu dweud mewn unrhyw un o'r achosion hynny a fyddent wedi gallu achub pobl yn uwch yn yr adeilad pe na byddent wedi gwneud hynny, ond **rydym yn argymell** bod y Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol yn ystyried a ddylai, ac os felly ym mha amgylchiadau, ymladdwyr tân beidio a chael eu hannog rhag gwyro o'u cyfarwyddiadau ar eu menter eu hunain a darparu hyfforddiant priodol o ran sut i ymateb i sefyllfa o'r fath honno.

## Ymateb ac adferiad

**113.66** Crëodd dân Twr Grenfell argyfwng ar raddfa ddigynsail o ganlyniad i golli bywyd, dinistr o gymaint o gartrefi a'r dadleoli o dros 800 o bobl a gafodd eu gwneud yn ddigartref ac, mewn llawer o achosion, at bob diben ymarferol yn ddiymgeledd. Cafodd y trefniadau ar gyfer ymateb i argyfyngau sifil ei brofi'n ddifrifol ac mewn llawer o agweddau ni pherfformiodd gystal â'r disgwyl. Yn Rhagfyr 2022 cyhoeddodd y llywodraeth *Fframwaith Cydnerthedd* newydd a rhoddodd mewn grym yr hyn a ddisgrifir fel ymagwedd strategol newydd at gydnerthedd. Rydym yn croesau'r camau hynny. Serch hynny, mae meysydd yn aros lle rydym yn meddwl bod angen gwneud gwelliannau ychwanegol ynddynt.

### Y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004

**113.67** Mae pwerau'r llywodraeth yn adrannau 5 a 7 o'r Ddeddf i ymyrryd mewn ymateb i argyfwng yn bellgyrhaeddol ond nid ydynt yn ei galluogi i ymyrryd yn gyflym nac yn bendant pan fydd ymatebwr Categori 1 yn methu â chodi i'r her. **Rydym felly'n argymell** bod y Ddeddf yn cael ei hadolygu a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddyfarnu''r pŵer i Ysgrifennydd Gwladol dynodedig i gyflawni swyddogaethau ymatebwr Categori 1 yn ei le am gyfnod cyfyngedig.

**113.68** Dangosodd ymateb sefydliadau gwirfoddol lleol i'r drychineb eu capasiti i weithredu fel partneriaid gwerthfawr mewn ymateb i argyfwng. Mae rheoliad 23 o reoliadau Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (Cynllunio Argyfwng) 2005 yn gofyn bod ymatebwr Categori 1 yn ystyried, wrth wneud ei gynlluniau, gweithgareddau sefydliadau gwirfoddol

perthnasol. **Rydym felly'n argymell** bod y rheoliad yn cael ei ddiwygio i ofyn i ymatebwyr Categori 1 sefydlu a chynnal partneriaethau â'r sefydliadau gwirfoddol, cymunedol a ffydd yn y meysydd y maen nhw'n gyfrifol am baratoi ar gyfer ac ymateb i argyfyngau ynddynt.

## Cyfarwyddyd

**113.69** Mae'r cyfarwyddyd presennol ar baratoi ar gyfer argyfyngau wedi ei gynnwys mewn sawl dogfen, pob un ohonynt yn ddiangen o hir ac mewn rhai agweddau wedi dyddio. **Rydym yn argymell** bod y cyfarwyddyd yn cael ei adolygu, ei gwtogi a'i gadarnhau mewn un ddogfen sy'n gosod pwyslais helaethach ar yr angen i'r rheini sy'n arwain yr ymateb ystyried y gofynion ar gyfer adferiad, yr angen i nodi pobl sy'n agored i niwed, y pwysigrwydd o nodi a sicrhau cydweithrediad â grwpiau gwirfoddol, cymunedol a ffydd ac sy'n gyson a Deddf Cydraddoldeb 2010. **Rydym hefyd yn argymell** bod ystyriaethau dyngarol yn cael eu cydnabod yn benodol trwy ei wneud yn nawfed egwyddor ymateb ac adferiad effeithiol.

## Trefniadau Aur Awdurdodau Lleol Llundain

**113.70** Er bod pob bwrdeistref yn Llundain yn ymatebwr categori 1, mae trefniadau ar gyfer hyrwyddo cydnerthedd ar draws y brifddinas gyfan, yn enwedig trwy drefniadau Aur Awdurdodau Lleol Llundain. Dangosodd digwyddiadau, fodd bynnag, fod angen am ddealtwriaeth eglurach o natur trefniadau Aur Llundain, yn enwedig mewn sefyllfaoedd lle mae bwrdeistref unigol yn cael ei heffeithio. **Rydym felly'n argymell** bod y cyfarwyddyd ar weithredu'r trefniadau hynny yn cael eu hadolygu a bod prif weithredwyr presennol a rhai sy'n cael eu penodi o'r newydd yn cael hyfforddiant rheolaidd i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'i egwyddorion.

## Fforymau cydnerthedd lleol

**113.71** Datgelodd ein hymchwiliadau anallu fforwm cydnerthedd Llundain i fonitro ansawdd cynllunio, hyfforddiant a pharatoi ei aelodau ar gyfer ymateb i argyfyngau. Ni rhoddodd naill ai'r*Isafswm Safonau ar gyfer Llundain*, oedd yn gymwys ar y pryd, na'r hyn a gymerodd ei le, *Safonau Cydnerthedd ar gyfer Llundain*, i'r fforwm cydnerthedd lleol unrhyw fodd o sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau y gwnaethant eu rhagnodi. Rydym yn sylwi yn y *Fframwaith Cydnerthedd* bod y llywodraeth wedi cydnabod yr angen i gryfhau fforymau cydnerthedd lleol. **Rydym felly'n argymell** bod fforymau cydnerthedd lleol yn mabwysiadu safonau cenedlaethol i sicrhau hyfforddiant, paratoi a chynllunio effeithiol ar gyfer argyfyngau ac yn mabwysiadu cynlluniau archwilio annibynnol i nodi diffygion a sicrhau cydymffurfiaeth. **Rydym hefyd yn argymell** bod mecanwaith yn cael ei gyflwyno ar gyfer dilysu amlder ac ansawdd yr hyfforddiant a ddarperir gan awdurdodau lleol ac ymatebwyr categori 1 eraill yn annibynnol.

## Awdurdodau lleol

**113.72** Dangosodd methiant Bwrdeistref Frenhinol Kensington a Chelsea (RKBC) i ddiwallu anghenion sylfaenol y rheini a ddadleolwyd yn y dyddiau yn union ar ôl y tân yr angen i gael cynlluniau effeithiol mewn grym ar gyfer darparu cymorth dyngarol. Pwysleisiodd hefyd yr angen i'r cynlluniau hynny gael eu cefnogi gan swyddog cyswllt cymorth dyngarol cymwys (HALO) a bod ymarfer rheolaidd yn cael ei gynnal i'w gwireddu. Mae cwmpas i bawb o'r rheini y gofynnwyd iddynt ymateb i argyfyngau i ddysgu o brofiadau ei gilydd a hyrwyddo ymarfer gorau.

**113.73** Nid oedd RKBC yn gallu darparu ymateb effeithiol oherwydd nad oedd wedi gwneud trefniadau digonol ar gyfer staffio'r ganolfan gyfathrebu argyfyngau, nid oedd wedi gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer cymorth dyngarol, gan gynnwys y ddarpariaeth o gymorth llety ac ariannol, nid oedd ganddo'r gallu i gadw cofnodion cywir o'r rhai yr oedd angen cymorth arnynt ac nid oedd ganddo system effeithiol ar gyfer cyfathrebu â'r cyhoedd. Gallai a dylai'r diffygion hyn gael eu hosgoi yn y dyfodol trwy gyfuniad o fesurau, ond yn ategu pob un ohonynt mae angen i staff awdurdodau lleol drin cydnerthedd a pharodrwydd ar gyfer argyfyngau fel rhan hanfodol o'u cyfrifoldebau. **Rydym felly'n argymell** bod awdurdodau lleol yn hyfforddi eu holl gyflogeion, gan gynnwys prif weithredwyr, i ystyried cydnerthedd fel rhan greiddiol o'u cyfrifoldebau.

**113.74** Nid oedd gan RKBC ddull effeithiol o gasglu a chofnodi gwybodaeth am y rheini oedd wedi cael eu dadleoli o'r tŵr ac adeiladau o'i gwmpas, gan gynnwys y rheini oedd ar goll. Mae crynhoi gwybodaeth ddibynadwy o'r fath honno yn anodd a bydd yr heriau sy'n debygol o gael eu hwynebu gan ymatebwyr categori 1 awdurdodau lleol yn amrywio yn unol â natur yr argyfwng. **Rydym yn argymell** bod pob awdurdod lleol yn dyfeisio dulliau o gael a chofnodi gwybodaeth o'r fath honno, os yn bosibl ar ffurf electronig, ac yn ymarfer eu rhoi ar waith o dan amrywiaeth o amgylchiadau gwahanol.

**113.75** Mae unrhyw awdurdod lleol yn debygol o gael anhawster i ganfod llety dros dro ar gyfer nifer fawr iawn o unigolion sydd wedi eu dadleoli ond dylai'r angen i wneud hynny gael ei gydnabod a dylai cynlluniau argyfwng gael eu llunio. **Rydym yn argymell** bod pob awdurdod lleol yn gwneud y fath drefniadau ag sy'n rhesymol ymarferol ar gyfer eu galluogi i leoli pobl mewn llety dros dro ar fyr rybudd ac mewn ffyrdd sy'n ateb eu gofynion personol, crefyddol a diwylliannol. Dylai'r fath drefniadau, cyn belled â phosibl, gynnwys darparwyr lleol o dai cymdeithasol.

**113.76** Mae cymorth dyngarol effeithiol yn hanfodol o ran sicrhau bod y rheini a effeithir fwyaf gan argyfwng yn cael eu trin ag urddas a pharch ac nad ydynt yn dioddef trawma ychwanegol o ganlyniad i analluu i gymryd rheolaeth ar eu sefyllfa. Yn achos yr ymateb i dân Tŵr Grenfell achosodd tri mater ddrwgdeimlad neilltuol: yr amgylchiadau ynghylch rhywfaint o'r llety dros dro, yr anhawster i gael cymorth ariannol yn y dyddiau yn syth ar ôl y tân a methiannau yn y cymorth a ddarparwyd gan weithwyr allweddol. Gall problemau sy'n codi o ddarparu llety dros dro addas fod yn anodd i'w datrys ond dylai cwynion eraill fod yn haws i'w hosgoi trwy gynllunio gofalus. **Rydym yn argymell** bod pob awdurdod lleol yn cynnwys yn eu cynlluniau argyfwng drefniadau ar gyfer darparu cymorth ariannol ar unwaith i bobl a effeithir gan argyfwng. **Rydym hefyd yn argymell** fel rhan o'u cynllunio ar gyfer argyfyngau bod awdurdodau lleol yn rhoi ystyriaeth fanwl i argaeledd gweithwyr allweddol a'r rôl y disgwylir iddynt ei chwarae er mwyn i drefniadau argyfwng posibl allu cael eu gwneud i sicrhau, mor belled â phosibl, parhad cymorth.

**113.77** Un agwedd bwysig ar gymorth dyngarol oedd yn absennol yn dilyn tân Tŵr Grenfell oedd cyfathrebu rheolaidd rhwng y rheini oedd yn darparu cymorth a'r rhai yr oedd ei angen arnynt. Er enghraifft, teimlai gormod o bobl y cafwyd hyd i lety dros dro ar eu cyfer eu bod wedi cael eu gadael ar eu pennau'u hunain, heb wybod am ba hyd y disgwylid iddynt aros neu ar ba delerau a heb unrhyw un i droi ato i ddarparu'r wybodaeth honno. Achosodd hynny ymdeimlad o fod yn ynysig ac yn ddirym. **Rydym yn argymell** fel rhan o'u cynllunio bod awdurdodau lleol yn gwneud trefniadau effeithiol ar gyfer parhau i gyfathrebu â'r rheini sydd ag angen cymorth gan ddefnyddio'r dechnoleg fwyaf addas ac amrediad o ieithoedd sy'n briodol i'r ardal.

**113.78** Mae'n bwysig hefyd i beidio â cholli golwg o'r rheini, er heb eu heffeithio'n gorfforol gan argyfwng, a all fod yn bryderus am ddiogelwch ffrindiau neu berthnasau sydd wedi eu dal ynddo. Eto, mae cyfathrebu effeithiol yn hanfodol. **Rydym yn argymell** bod pob awdurdod lleol yn cynnwys yn eu cynlluniau ar gyfer ymateb i drefniadau argyfwng i ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd trwy ba gyfuniad bynnag o ddulliau modern o gyfathrebu sy'n fwyaf tebygol ar gyfer yr ardaloedd maen nhw'n gyfrifol amdanynt. Yn y dyfodol, i osgoi dryswch, gwastraff ymdrech a rhwystredigaeth **rydym hefyd yn argymell** bod yr hyn sydd wedi cael ei alw yn y gorffennol gan yr heddlu yn “ganolfan argyfwng” yn cael ei disgrifio mewn ffordd sy'n egluro nad yw'n darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am bobl a effeithir gan yr argyfwng.

## Pobl sy'n agored i niwed.

**113.79** Rydym yn dod â'n casgliadau i ben trwy edrych yn ôl i Gam 1. Yn adroddiad Cam 1 argymhellodd y cadeirydd ei bod yn ofynnol i berchennog a rheolwr pob adeilad preswyl uchel iawn trwy gyfraith i baratoi cynlluniau gwagio argyfwng personol (PEEPs) ar gyfer pob preswylydd y gall eu gallu i wagio'r adeilad heb gymorth fod wedi'i gyfaddawdu (megis unigolion â symudedd gostyngol neu wybyddiaeth wedi'i hamharu)[15] ac i gynnwys gwybodaeth gyfredol amdanynt a'u PEEPs cysylltiedig mewn blwch gwybodaeth yn yr adeilad.[16]

**113.80** Fe wnaeth yr ystyriaethau a'i harweiniodd i wneud yr argymhellion hynny ein harwain i ymchwilio yng Ngham 2 pam y cynghorodd y Canllaw LGA landlordiaid ac unigolion cyfrifol ei bod yn anarferol o afrealistig i gynllunio ar gyfer y gwagio a chynorthwyo yn achos tân o breswylwyr anabl ac agored i niwed mewn blociau fflatiau anghenion cyffredinol, megis Tŵr Grenfell.[17] Arweiniodd hynny yn ei dro i ni wneud nifer o feirniadaethau o'r llywodraeth bod y cyngor yn y canllaw LGA yn cael ei ailystyried.[18]

**113.81** Ymhellach, mae'r dystiolaeth ychwanegol rydym wedi ei derbyn yng nghwrs Cam 2 wedi cadarnhau i ni yn y farn y dylai'r unigolyn sy'n gyfrifol am adeilad preswyl anghenion cyffredinol gasglu gwybodaeth ddigonol am breswylwyr agored i niwed i alluogi mesurau priodol i gael eu cymryd i gynorthwyo eu dianc yn achos tân.[19] Mae llawer o'r dystiolaeth yn ymwneud a'r marwolaethau unigol a amlinellir yn Rhan 9 yn pwysleisio'r pwysigrwydd o allu darparu gwybodaeth ddibynadwy i'r gwasanaeth tân ac achub am fregusrwydd y rheini y mae angen eu hachub.

**113.82** **Rydym felly'n argymell** i ystyriaeth ychwanegol gael ei rhoi i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Cam 1 yng ngoleuni ein canfyddiadau yn yr adroddiad hwn.

**113.83** **Rydym hefyd yn argymell** bod y cyngor a gynhwysir ym mharagraff 79.11 o ganllaw'r LGA yn cael ei ailystyried.

---

15 Adroddiad Cam 1 Cyfrol IV paragraff 33.22(e).
16 Adroddiad Cam 1 Cyfrol IV paragraff 33.22(f).
17 Gweler Rhan 2, Pennod 14, paragraff 14.2.
18 Gweler Rhan 2, Pennod 14, ac yn enwedig paragraff 14.17.
19 Rhan 5, Pennod 46, paragraff 46.90.

ISBN 978-1-5286-5080-9